




Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

Adroddiad ymgynghori



FR-TON-SU001

CYSWLLT YSBYTY TONNA

Cyflwyniad

Mae'r cynllun yn cynnwys gwella'r troedffyrdd sy'n mynd ar hyd ymyl y gerbyttfordd rhwng Ysbyty Tonna a phentref Tonna.

Cyfeirnod Grid:








Dechrau'r Cynllun – 277733, 199238

Diwedd y Cynllun – 278096, 199325

Bydd y droedffordd bresennol yn cael ei lledu i mewn i'r gerbyttfordd a bydd wyneb newydd yn cael ei roi arni, bydd cyffyrdd yn cael eu culhau, bydd llwyfan cyflymder yn cael ei adeiladu, bydd y gylchfan bresennol yn cael ei chodi (er mwyn ffurfio llwyfan ar y gylchfan), bydd croesfannau botymog newydd yn cael eu hadeiladu, bydd gyliau newydd yn cael eu gosod a bydd cysgodfannau bysiau newydd yn cael eu gosod yn lle'r rhai presennol. Bydd lled y droedffordd yn amrywio, gydag isafswm lled o 2m; bydd y gerbyttfordd yn cael ei chulhau i 6.4m.

Bydd y cynllun yn gwella'r ddarpariaeth ar gyfer cerdded yn ddiogel ar hyd y llwybr, gan sicrhau hygyrchedd i bawb.





Mae'r cynnig yn cynnwys y canlynol:

-  Lledu'r droedffordd a rhoi wyneb tarmacadam llyfn newydd arni.
-  Culhau'r cyffyrdd, gwella croesfannau botymog ac adeiladu llwyfannau cyflymder ar draws cyffyrdd ac ar y gylchfan er mwyn darparu manau croesi mwy diogel.
-  Gosod gyliau er mwyn gwella systemau draenio.
-  Ychwanegu marciau ffordd er mwyn gwella cynllun y ffordd.
-  Cysgodfannau bysiau newydd a chynllun newydd i safleoedd bysiau er mwyn gwella profiad defnyddwyr.
-  Codi ffens werdd fel mesur lliniaru ecolegol.
-  Cyflwyno ardal 40mya rhwng y terfyn cyflymder cenedlaethol a'r terfyn cyflymder 20mya.

Mae cyllid ar gyfer y cynllun hwn wedi cael ei sicrhau o gronfa Teithio Llesol Graidd Llywodraeth Cymru.

Gweithgareddau ymgynghori

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 31 Mai 2023 a 30 Mehefin 2023

-  Anfonwyd llythyrau i tua 325 o dai yn ardal y cynllun, ac mae copi o'r llythyr i'w weld yn Atodiad A.
-  Anfonwyd e-bost at ** o randdeiliaid ac ymgynghoreion statudol. Mae copi o'r e-bost i'w weld yn Atodiad B.
-  Rhoddwyd gwybodaeth ar ffurf disgrifiad byr o'r cynnig a lluniadau'r cynllun ar dudalen we Teithio Llesol y Cyngor. Mae copi o'r disgrifiad a lluniadau'r cynllun i'w gweld yn Atodiad C.
-  Cyhoeddwyd postiadau yn y cyfryngau cymdeithasol er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad. Gweler Atodiad D.

Darparwyd dolen i arolwg ymgynghori a oedd wedi'i letya ar borth SnapSurveys ac mae copi o'r cwestiynau i'w gweld yn Atodiad E.

Ymatebion i'r ymgynghoriad.

Cawsom ** o ymatebion unigol drwy'r porth SnapSurveys a ddefnyddiwyd i letya'r ymgynghoriad, ac mae copi o ganlyniadau'r arolwg ar-lein i'w gweld yn Atodiad F.

ATODIAD A

LLYTHYR A ANFONWYD I DAI YN ARDAL Y CYNLLUN



Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

AT Y PERCHENNOG/DEILIAD

Dyddiad/Date 31 Mai 2023
Linell Uniongyrchol/Direct Line 01639 686868
E-bost/Email environment@npt.gov.uk

Annwyl Breswlydd,

Ymgynghoriad ar Welliannau Teithio Llesol arfaethedig yn Tonna Uchaf, Tonna

Mae'r cyngor yn ymgynghori ar y cynnig i wneud gwelliannau i'r llwybr Teithio Llesol yn Tonna Uchaf, Tonna. Gellir gweld manylion y cynnig ar wefan y cyngor yn www.npt.gov.uk/32497#activetravelconsultations

Os nad oes gennych fynediad at gyfrifiadur, ysgrifennwch at:
Pennaeth Peirianeg a Thrafnidiaeth,
Y Ceiau,
Parc Ynni Baglan,
Castell-nedd SA11 2GG
i ofyn am gopi papur o'r cynlluniau a'r ymgynghoriad.

Mae'r ymgynghoriad yn cau ar **30/06/2023** a rhaid i ni dderbyn yr holl sylwadau erbyn y dyddiad hynny.

Bydd rhoi'r mesurau arfaethedig ar waith yn amodol ar y cyngor yn derbyn arian grant gan Lywodraeth Cymru.

Yn gywir,

Ar ran y Pennaeth Peirianeg a Chludiant

Yr Amgylchedd ac Adfywio

David W Griffiths Pennaeth Peirianeg a Chludiant
Y Ceiau, Ffordd Brunel, Parc Ynni Baglan, Castell-Nedd SA11 2GG
Ffôn 01639 686868 Ffacs 01639 686100

Environment & Regeneration

David W Griffiths Head of Engineering & Transport
The Quays, Brunel Way, Baglan Energy Park, Neath SA11 2GG
Phone 01639 686868 Fax 01639 686100

www.npt.gov.uk

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a byddwn yn ymdrin â gohebiaeth Gymraeg a Saesneg i'r un safonau ac amserlenni.
We welcome correspondence in Welsh and will deal with Welsh and English correspondence to the same standards and timescales.

ATODIAD B

E-BOST A ANFONWYD AT RANDDEILIAID AC YMGYNGOREION
STATUDOL

Ymgynghoriad Teithio Llesol

Mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot bob amser yn gweithio ar brosiectau i wella teithio o bob math, ac mae'n awyddus i sicrhau bod pawb yn cael y cyfle i fynegi eu barn a'u syniadau.

Mae'r cyngor yn ymgynghori ar y cynnig i wneud gwelliannau i'r llwybr Teithio Llesol yn Tonna Uchaf, Tonna ar hyn o bryd.

Gellir gweld manylion y cynnig ar wefan y cyngor yn www.npt.gov.uk/32497#activetravelconsultations

Mae'r ymgynghoriad yn cau ar **30/06/2023** a rhaid i ni dderbyn yr holl sylwadau erbyn y dyddiad hynny.

Bydd rhoi'r mesurau arfaethedig ar waith yn amodol ar y cyngor yn derbyn arian grant gan Lywodraeth Cymru.

Os nad ydych am dderbyn e-byst am ymgynghoriadau Teithio Llesol yn y dyfodol, e-bostiwch greener@npt.gov.uk i roi gwybod i ni a byddwn yn dileu eich enw oddi ar ein rhestr bostio.

Active Travel Consultation

Neath Port Talbot Council is always working on projects to improve travel for all modes, and is keen to make sure that everyone has the right opportunity to feedback their thoughts and ideas.

The Council is presently consulting on the proposal to implement improvements to the Active Travel route at Tonna Uchaf, Tonna.

Details of the proposal can be viewed on the Councils website at www.npt.gov.uk/32497#activetravelconsultations

The consultation closes on **30/6/2023** all comments are to be received by that date.

Implementation of the proposed measures will be subject to the Council receiving grant funding from the Welsh Government.

If you do not wish to receive emails regarding Active Travel consultations in the future please email greener@npt.gov.uk to let us know and we will remove you from our mailing list.

Neath Port Talbot County Borough Council / Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
The Quays, Brunel Way, Neath SA11 2GG/Y Cefau, Ffordd Brunel, Castell-nedd, SA11 2GG

Tel/Ffôn: 01639 686868



Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

ATODIAD C

DISGRIFIAD O'R CYNNIG A CHYNLLUNIAU'R CYNLLUN

Ymgynghoriad Teithio Llesol

Mae Castell-nedd Port Talbot yn ymgynghori ar gynnig i wella'r llwybr teithio llesol yn Tonna Uchaf, Tonna ar hyn o bryd.

Bydd y cynllun yn cynnwys gwelliannau i'r llwybr i gerddwyr rhwng ysbyty Tonna a Tonna. Mae'r cynnig yn cysylltu'r pentref â'r ysbyty a hefyd yn cysylltu ardal breswyl â'r siopau lleol.

Dangosir y cynllun fel llwybr presennol, cyf. NPT-TON-P003 a llwybr yn y dyfodol, FR-TON-SU001 ar y map Rhwydwaith Teithio Llesol ar gyfer Castell-nedd Port Talbot. Roedd yr archwiliad i'r llwybr yn dangos bod y llwybr wedi methu oherwydd y diffyg manau croesi addas i gerddwyr. Bydd y cynnig yn mynd i'r afael â'r materion hyn a hefyd yn sicrhau bod y llwybr yn bodloni safonau'r Ddeddf Teithio Llesol.

Mae'r cynnig yn cynnwys:

- Ehangu'r droedffordd bresennol i fodloni'r safonau a nodir yn y Ddeddf Teithio Llesol.
- Gwelliannau i gyffyrdd y croesfannau i roi blaenoriaeth i gerddwyr drwy osod croesfannau wedi'u codi.
- Gwelliannau i'r groesfan ger y cylchfan drwy osod cylchfan wedi'i godi.
- Gostwng y cyflymder ar hyd y llwybr o 30mya i 20mya a chyflwyno parth trawsnewid rhwng y rhan 20mya a'r rhan 60mya.
- Gosod man croesi heb ei reoli er mwyn cysylltu'r ardal breswyl a'r ysbyty.
- Adleoli'r arhosfan bysus er mwyn gwella'r gyffordd ar y ffordd fach a symud y man croesi i'r man dymunol.
- Gosod seddi ar hyd y llwybr.
- Gosod wal werdd i wella bioamrywiaeth a'r amgylchedd lleol.

Bydd adeiladu'r cynigion yn amodol ar dderbyn arian gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r ymgynghoriad yn cau ar 30/06/2023 a rhaid i ni dderbyn yr holl sylwadau erbyn y dyddiad hynny.

ATODIAD D

POSTIADAU CYFRYNGAU CYMDEITHASOL



👤 Mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn ymgynghori ar gynnig i wella cysylltiadau i gerddwyr yn Heol Uchaf, Tonna, a hoffem gael eich barn a'ch sylwadau.

Mae'r cynnig yn cysylltu'r pentref â'r ysbyty a hefyd yn cysylltu ardal breswyl â'r siopau lleol.

I weld y cynllun a darparu adborth, ewch i: <https://www.npt.gov.uk/32497?lang=cy-gb...>

Mae'r ymgynghoriad yn cau ar 30/6/2023 felly rhanwch eich barn, trwy ein harolwg ar y dudalen we uchod, cyn hynny.

The image contains four technical diagrams illustrating proposed road improvements for various routes in Tonna. Each diagram includes a cross-section, a plan view, and a legend for materials like tarmac, concrete, and kerbs.

- Diagram 1 (Top Left):** "hio Llesol FR-TON-SU001 byty Tonna y Bryn". Shows a road junction with a proposed kerb and tarmac. Legend includes: Cwsgwrdd gylffwrdd arbenigol, Troadffordd brosedur, Ffordd brosedur, Troadffordd arbenigol, Dwyfwrdd arbenigol, and Mwyd neuall ysgaf.
- Diagram 2 (Top Right):** "Lwybr Teithio Llesol FR-TON-SU001 Cyswilt Ysbyty Tonna - Mynedfa'r Ysbyty OPSIWN 1". Shows a road improvement with a proposed kerb and tarmac. Legend includes: Cwsgwrdd gylffwrdd arbenigol, Troadffordd brosedur, Ffordd brosedur, Troadffordd arbenigol, Dwyfwrdd arbenigol, and Mwyd neuall ysgaf.
- Diagram 3 (Middle Right):** "Lwybr Teithio Llesol FR-TON-SU001 Cylchfan Cyswilt Ysbyty Tonna a Heol Caredig". Shows a roundabout improvement with a proposed kerb and tarmac. Legend includes: Cwsgwrdd gylffwrdd arbenigol, Troadffordd brosedur, Ffordd brosedur, Troadffordd arbenigol, Dwyfwrdd arbenigol, and Mwyd neuall ysgaf.
- Diagram 4 (Bottom Left):** "hio Llesol FR-TON-SU001 byty Tonna - Ysbyty". Shows a road junction with a proposed kerb and tarmac. Legend includes: Cwsgwrdd gylffwrdd arbenigol, Troadffordd brosedur, Ffordd brosedur, Troadffordd arbenigol, Dwyfwrdd arbenigol, and Mwyd neuall ysgaf.
- Diagram 5 (Bottom Right):** "Lwybr Teithio Llesol FR-TON-SU001 Cyswilt Ysbyty Tonna, Cyswilt yr Ystad". Shows a road improvement with a proposed kerb and tarmac. Legend includes: Cwsgwrdd gylffwrdd arbenigol, Troadffordd brosedur, Ffordd brosedur, Troadffordd arbenigol, Dwyfwrdd arbenigol, and Mwyd neuall ysgaf.

<https://www.facebook.com/NeathPortTalbotCBC/posts/pfbid0MpozZPeCCJYmXzddtiBn6jNWFmrwgA2ukCUcYuSAKmKXHR4gF3x3bXpnRWpvksPI>

ATODIAD E

CWESTIYNAU AROLWG SNAPSURVEYS

YMGYNGHORIAD

Yn ystod datblygiad Cynlluniau Teithio Llesol rydym yn ymgynghori â phreswylwyr lleol a phartion eraill o ddiddordeb, i esbonio'r rhesymau dros y cynllun a'i ddyluniad. Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhoi cyfle i chi gyfrannu gwybodaeth berthnasol a all effeithio ar ddyluniad terfynol y cynllun.

Dosberthir hysbysiadau am y cynllun i breswylwyr sy'n byw ar y ffordd ger y cynigion.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, bydd y dogfennau a fydd ar gael yn cynnwys y canlynol:

- disgrifiad o'r cynllun, a
- chynlluniau dangosol o'r cynigion.

Yn ystod y cyfnod ar ôl ymgynghori, caiff y rhain eu disodli gan yr Adroddiad Ymgynghori a'r cynlluniau dylunio'r cysyniad i chi eu gweld.

CWESTIWN 1

Beth yw eich barn chi am y cynlluniau i wella'r llwybr cerdded/beicio yn yr ardal hon? (*ticiwch un ateb*)

- Hapus iawn.
- Yn hapus.
- Ddim yn hapus.
- Ddim yn hapus o gwbl.
- Dim barn.

CWESTIWN 2

Beth ydych chi'n ei hoffi am y cynnig? (*ticiwch    nag un ateb*)

- Bydd yr ardal yn fwy diogel i'r holl ddefnyddwyr.
- Bydd y cynnig yn annog mwy o gerdded neu feicio.
- Bydd yn haws i deithio o amgylch yr ardal.
- Bydd yr amgylchedd cyffredinol yn cael ei wella.
- Caiff yr ymdeimlad o gymuned leol ei wella.
- Bydd yr ardal yn fwy deniadol.
- Sylwadau ychwanegol

CWESTIWN 3

Beth nad ydych chi'n ei hoffi am y cynnig?*(ticiwch fwy nag un ateb)*

- Ni fydd yr ardal yn fwy diogel i'r holl ddefnyddwyr.
- Ni fydd y cynnig yn annog mwy o gerdded neu feicio.
- Bydd yn fwy anodd i deithio o amgylch yr ardal.
- Ni fydd yr amgylchedd cyffredinol yn cael ei wella.
- Ni chaiff yr ymdeimlad o gymuned leol ei wella.
- Bydd yr ardal yn llai deniadol.
- Sylwadau ychwanegol

CWESTIWN 4

Beth yw'ch cysylltiad â'r ardal? *(ticiwch fwy nag un ateb)*

- Rwy'n byw yma.
- Rwy'n cymudo drwy'r ardal.
- Rwy'n byw yn yr ardal gyfagos.
- Rwy'n gweithio yma.
- Rwy'n berchen ar fusnes yma.
- Rwy'n defnyddio'r llwybr hwn at ddibenion hamdden.
- Arall

CWESTIWN 5

Sut ydych chi fel arfer yn teithio yn yr ardal neu o'i chwmpas? *(ticiwch fwy nag un ateb)*

- Cerdded.
- Beicio.
- Loncian/rhedeg.
- Sgwter symudedd/cadair olwyn.
- Beic modur/moped.
- Car/cerbyd preifat.
- Bws.
- Tacsî.
- Cerbyd masnachol.
- arall

CWESTIWN 6

Pa mor gyfforddus ydych chi'n teimlo am gerdded yn yr ardal ar hyn o bryd? *(ticiwch un ateb)*

- Cyfforddus iawn.
- Eithaf cyfforddus.
- Eithaf anghyfforddus.
- Anghyfforddus iawn.
- Amherthnasol.

CWESTIWN 7

Pa mor gyfforddus ydych chi'n teimlo am feicio yn yr ardal ar hyn o bryd? *(ticiwch un ateb)*

- Cyfforddus iawn.
- Eithaf cyfforddus.
- Eithaf anghyfforddus.
- Anghyfforddus iawn.
- Amherthnasol.

CWESTIWN 8

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ychwanegol ynghylch y cynigion, darparwch y rhain yn y blwch isod.

Amdanoch Chi

Yn olaf, a fyddai modd i chi ddarparu gwybodaeth am eich hun i ni?

CWESTIWN 9

Nodwch eich **côd post llawn** isod (e.e. SA13 1PJ). Bydd hyn yn ein galluogi i ddarganfod barn ac anghenion ymatebwyr fesul ardal, ac i sicrhau ein bod ni wedi clywed gan bobl mewn pob rhan o'r fwrdeistref sirol:-

--

Cydraddoldeb

Mae'r cyngor yn gweithredu polisiau cydraddoldeb sy'n ceisio sicrhau bod pawb yn cael ei drin yn deg ac yn gyfartal. I sicrhau na wahaniaethir yn erbyn pobl wrth iddynt ddefnyddio'n gwasanaethau, rydym yn mynd ati i fonitro ac felly byddem yn ddiolchgar pe baech yn gallu ateb y cwestiynau canlynol. Mae'r wybodaeth rydych yn ei darparu yn gwbl gyfrinachol.

CWESTIWN 10

Beth yw eich oed? (*ticiwch un ateb*)

<input type="radio"/> Dan 16 oed
<input type="radio"/> 17-24 oed
<input type="radio"/> 25-29 oed
<input type="radio"/> 30-39 oed
<input type="radio"/> 40-49 oed
<input type="radio"/> 50-59 oed
<input type="radio"/> 60-74 oed
<input type="radio"/> 75-85 oed
<input type="radio"/> 86+ oed
<input type="radio"/> Mae'n well gen i beidio â dweud

CWESTIWN 11

laith Gymraeg - ydych chi'n: (*ticiwch un ateb*)

<input type="radio"/> Siarad ac yn ysgrifennu'n rhugl
<input type="radio"/> Siarad ac ysgrifennu'n weddol rugl
<input type="radio"/> Siaradwr rhugl
<input type="radio"/> Siaradwr gweddol rugl
<input type="radio"/> Dysgwr
<input type="radio"/> Ychydig neu ddim gwybodaeth

CWESTIWN 12

Ydych chi'n feichiog neu ar absenoldeb mamolaeth?

<input type="radio"/> Ydw
Nac ydw
<input type="radio"/> Mae'n well gen i beidio â dweud

Mae **Deddf Cydraddoldeb 2010** yn diffinio rhywun sy'n anabl fel rhywun â nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith andwyol sylweddol a thymor hir (h.y. wedi para neu disgwylir iddi bara am o leiaf 12 mis) ar allu'r person i wneud gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.

CWESTIWN 13

Oes gennych anabledd yn eich barn chi? (*ticiwch un ateb*)

<input type="radio"/> Oes
Nac oes
<input type="radio"/> Mae'n well gen i beidio â dweud

CWESTIWN 14

Tarddiad ethnig: (*ticiwch un ateb*)

<input type="radio"/> Gwyn Prydeinig
<input type="radio"/> Gwyn Gwyddelig
<input type="radio"/> Cymysg: Gwyn a Du Caribiaidd
<input type="radio"/> Cymysg: Gwyn a Du Affricanaidd
<input type="radio"/> Cymysg: Gwyn ac Asiaidd
<input type="radio"/> Indiaidd
<input type="radio"/> Bangladeshaid
<input type="radio"/> Pacistanaidd
<input type="radio"/> Du: Affricanaidd
<input type="radio"/> Du: Caribiaidd
<input type="radio"/> Tseineaid
Cymunedau Sipsiwn a Theithwyr
<input type="radio"/> Grŵp ethnig arall
<input type="radio"/> Mae'n well gen i beidio â dweud

CWESTIWN 14a

Grŵp Ethnig Arall (nodwch):

--

CWESTIWN 14b

Cymunedau Sipsiwn a Theithwyr - nodwch

Teithiwr Gwyddelig
<input type="radio"/> Teithiwr Newydd
<input type="radio"/> Roma
Sipsiwn Romani
Siewmon
<input type="radio"/> Arall

CWESTIWN 14c

Cymunedau Sipsiwn a Theithwyr eraill - nodwch:

--

CWESTIWN 15

Rhyw: (*ticiwch un ateb*)


<input type="radio"/> Wryw
<input type="radio"/> Menyw
<input type="radio"/> Trawsrywiol
<input type="radio"/> Anneuaidd
<input type="radio"/> Mae'n well gen i beidio â dweud
<input type="radio"/> Arall

CWESTIWN 15a

Arall (nodwch):

--

CWESTIWN 16

Tueddfryd rhywiol (*ticiwch  ateb*)

<input type="radio"/> Gwahanrywiol
<input type="radio"/> Lesbiaidd
<input type="radio"/> Hoyw
<input type="radio"/> Deurywiol
<input type="radio"/> Mae'n well gen i beidio â dweud
<input type="radio"/> Arall

CWESTIWN 16a

Arall - nodwch:

--

CWESTIWN 17

Crefydd/Cred: *(ticiwch un ateb)*

<input type="radio"/> Cristion
<input type="radio"/> Bwdhydd
<input type="radio"/> Hindŵ
<input type="radio"/> Iddew
<input type="radio"/> Moslem
<input type="radio"/> Sîc
<input type="radio"/> Dim crefydd
<input type="radio"/> Mae'n well gen i beidio â dweud
Crefydd arall

CWESTIWN 17a

Unrhyw grefydd arall - nodwch:

--

CWESTIWN 18

Cenedligrwydd *(ticiwch ✓ un ateb)*

<input type="radio"/> Welsh
<input type="radio"/> Albanaidd
<input type="radio"/> Saesneg
<input type="radio"/> Prydeinig
<input type="radio"/> Gwyddelig
<input type="radio"/> Mae'n well gen i beidio â dweud
<input type="radio"/> Arall

CWESTIWN 18a

Cenedligrwydd Arall (nodwch):

--


ATODIAD F

YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD, SYLWADAU AC YMATEB
SWYDDOGION Y CYNGOR I'R SYLWADAU

Canlyniadau'r Arolwg Ar-lein


Cwestiwn 1

Roedd 36% o'r ymatebwyr yn teimlo'n hapus iawn, yn hapus, neu'n niwtral ynglŷn â'r gwelliant arfaethedig.




Cwestiwn 2


Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn i'r trigolion beth roddent yn ei hoffi am y cynnig. Gallai'r trigolion ddewis un neu fwy o ymatebion.




Cafwyd sylwadau ychwanegol (sydd wedi'u cynnwys fel y daethant i law):

	Sylw	Ymateb Swyddogion y Cyngor
1	Mae ceir sy'n bacio'n ôl allan o ddreif y siop gornel yn achosi perygl i gerddwyr a gyrwyr eraill; mae parcio ar y stryd gan ddefnyddwyr y siop hefyd yn berygl a bydd creu man uwch ar y gyffordd honno yn gwneud hynny'n waeth.	<p>Diolch am godi eich pryderon ynglŷn â gweithredoedd gyrwyr sy'n dod allan o faes parcio Spar.</p> <p>Bydd y llinell ildio ar gyfer Heol Caredig yn cael ei haddasu er mwyn ei symud ymlaen i roi mwy o le rhwng y fynedfa i'r maes parcio a'r gyffordd. Cynigir cyfyngiadau parcio estynedig gyferbyn â'r fynedfa i faes parcio'r siop er mwyn gwella gwelededd.</p> <p>Caiff y cynnig ei ariannu drwy Gronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru, a fwriedir ar gyfer gwella cyfleusterau teithio llesol ac ni ellir defnyddio'r cyllid i wella darpariaeth ar gyfer parcio.</p>
2	Mae'n edrych fel syniad da ond rwy'n byw gyferbyn â'r ysbyty ac ni allaf weld bod problem sy'n ddigon mawr i fod yn deilwng o unrhyw waith o gwbl? Dylai fod cynlluniau ar gyfer mwy o leoedd parcio i'r ysbyty ar dir yr ysbyty neu gysylltiadau bysiau gwell i bobl barcio a theithio.	<p>Diolch am eich sylwadau cadarnhaol.</p> <p>Mater i'r GIG yw parcio yn yr ysbyty ac nid yw o fewn cwmpas y prosiect hwn.</p> <p>Bydd y gwelliannau'n cysylltu â'r safleoedd bysiau a chaiff cysgodfannau bysiau newydd eu gosod.</p>
f	Culhau'r fynedfa i stryd Pen Y Bryn? Mae'n anodd iawn mynd i mewn ac allan ar hyn o bryd gan fod pobl yn parcio'n anystyriol ac yn anghyfreithlon ar linellau melyn dwbl. Mae angen mynd i'r afael â'r sefyllfa o ran parcio ar Heol Uchaf, o ddydd Llun i ddydd Gwener, gan gyflogion yr ysbyty.	<p>Mae mynedfa Pen Y Bryn wedi cael ei dylunio yn unol â DE604 o Ganllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol. Mae mater parcio anghyfreithlon wedi cael ei godi â'n tîm gorfodi parcio.</p> <p>Mater i'r GIG yw parcio ar dir yr ysbyty ac nid yw o fewn cwmpas y prosiect hwn.</p>
4	Dim un o'r uchod; yn syml, mae'n wastraff arian.	<p>Drwy adeiladu'r llwybr hwn, rydym yn darparu llwybr cerdded diogel sy'n addas i bob defnyddiwr. Drwy ddarparu hyn, rydym yn rhoi'r opsiwn i bobl ddefnyddio dulliau teithio cynaliadwy eraill yn lle eu ceir.</p> <p>Diben y gwelliant hwn yw hybu teithio llesol yn yr ardal hon, sef blaenoriaeth Llwybr Newydd.</p> <p>Hierarchaeth teithio cynaliadwy</p> <p>Byddwn yn parhau i wneud y defnydd gorau o'r seilwaith trafniadaeth presennol trwy ei gynnal a'i reoli'n dda. Byddwn hefyd yn ei addasu ar gyfer hinsawdd sy'n newid ac yn ei uwchraddio i gefnogi dulliau teithio. Lle mae angen seilwaith newydd, byddwn yn defnyddio'r hierarchaeth teithio cynaliadwy.</p> 

5	Dim un o'r uchod; syniad ofnadwy.	<p>Drwy adeiladu'r llwybr hwn, rydym yn darparu llwybr cerdded diogel sy'n addas i bob defnyddiwr. Drwy ddarparu hyn, rydym yn rhoi'r opsiwn i bobl ddefnyddio dulliau teithio cynaliadwy eraill yn lle eu ceir.</p> <p>Diben y gwelliant hwn yw hybu teithio llesol yn yr ardal hon, sef blaenoriaeth Llwybr Newydd.</p> <p>Hierarchaeth teithio cynaliadwy</p> <p>Byddwn yn parhau i wneud y defnydd gorau o'r seilwaith trafniadaeth presennol trwy ei gynnal a'i reoli'n dda. Byddwn hefyd yn ei addasu ar gyfer hinsawdd sy'n newid ac yn ei uwchraddio i gefnogi dulliau teithio. Lle mae angen seilwaith newydd, byddwn yn defnyddio'r hierarchaeth teithio cynaliadwy.</p> 
6	Ar hyn o bryd mae'n beryglus croesi'r gerbyttffordd i gyrraedd yr unig siop gornel yn y pentref. Bydd y cynigion yn darparu manau croesi diogel ac yn lleihau cyflymder cerbydau o fwriad. Mae'n dda gweld yr amgylchedd yn cael ei ystyried; dylai'r safleoedd bysiau newydd gynnwys toeau gwyrdd yn unol â pholisi Cymru.	Diolch am eich sylwadau cadarnhaol.
7	Rwy'n byw wrth ymyl y fân gylchfan ers dros 30 mlynedd. Bydd cerbydau mawr yn aml yn ei chael hi'n anodd iawn mynd o'i hamgylch heb iddi fod wedi'i chodi! O'r holl welliannau y gellid eu gwneud yn Nhonna, mae'n ymddangos bod y cynlluniau hyn yn ddiangen. Mae'n llawer mwy peryglus ymhellach i lawr y pentref lle y gallai arian gael ei wario'n llawer gwell.	<p>Bydd y gylchfan ar gyffordd Tonna Uchaf/Heol Dulais Fach/Stryd y Parc yn cael ei chodi yn ei chyfanrwydd er mwyn ffurfio llwyfan uwch. Cynigir y bydd llinellau'r cyrbiau'n aros yn yr un lle, y bydd yr ynysoedd canol ar y ffyrdd dynesu'n cael eu tynnu oddi yno ac y bydd canol y gylchfan yn cael ei baentio ar y llwyfan uwch. Bydd y llwyfan uwch yn ymestyn ar draws lled y gylchfan gyda rampiau ar y ffyrdd dynesu er mwyn i gerbydau allu mynd drosodd yn ddiogel – fel y gwelir yn yr enghraifft isod</p>  <p>Drwy gadw llinell y cwrn yn yr un lle a chael gwared ar yr ynysoedd traffig, bydd ychydig yn haws i gerbydau (yn enwedig cerbydau mwy) fynd o amgylch y gylchfan nag yw hi ar hyn o bryd.</p>


		Caiff llwybrau a nodwyd ar Fap Rhwydwaith Teithio Llesol CNPT eu hystyried yn y dyfodol.
8	Nid yw'r heol presennol yn ddiogel i gerdded ar hyn o bryd. Yn ogystal â hyn, bydd y newidiadau yn cael effaith cadarnhaol ar yr amgylchedd ac yn sicr bydd yn saffach i bawb.	Diolch am eich sylwadau cadarnhaol.
9	Rwy'n credu bod rhai cynigion fel gwneud yr ardal yn fwy diogel i feicwyr yn wych ond mae culhau'r fynedfa i stryd Pen Y Bryn a chodi'r gylchfan yn enwedig yn syniad ofnadwy; mae'n anodd i fysiau a lorïau fynd drwodd yn barod ac mae hynny drwy allu gyrru dros y gylchfan; bydd yn arafu'r traffig ond byddai'n achosi tagfeydd anferth	<p>Mae mynedfa Pen Y Bryn wedi cael ei dylunio yn unol â DE604 o Ganllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol.</p> <p>Bydd y gylchfan ar gyffordd Tonna Uchaf/Heol Dulais Fach/Stryd y Parc yn cael ei chodi yn ei chyfanrwydd er mwyn ffurfio llwyfan uwch. Cynigir y bydd llinellau'r cyrbiau'n aros yn yr un lle, y bydd yr ynysoedd canol ar y ffyrdd dynesu'n cael eu tynnu oddi yno ac y bydd canol y gylchfan yn cael ei baentio ar y llwyfan uwch. Bydd y llwyfan uwch yn ymestyn ar draws lled y gylchfan gyda rampiau ar y ffyrdd dynesu er mwyn i gerbydau allu mynd drosodd yn ddiogel – fel y gwelir yn yr enghraifft isod</p>  <p>Drwy gadw llinell y cwrw yn yr un lle a chael gwared ar yr ynysoedd traffig, bydd ychydig yn haws i gerbydau (yn enwedig cerbydau mwy) fynd o amgylch y gylchfan nag yw hi ar hyn o bryd.</p>
10	Mae Heol Caredig yn beryglus iawn, gan fod pobl yn parcio ar y palmant sy'n gorfodi cerddwyr i gerdded ar y ffordd; mae llawer o bobl anabl a mamau ifanc â chadeiriau gwrthio a phramiau yn ei chael hi'n anodd iawn; mae damwain yn anochel; rwy'n credu y byddai 20mya yn dod i lawr i gyffordd siop Spar yn syniad da, ond rhaid aros i weld a fydd gyrwyr yn cadw at y terfyn; un peth nad wyf o'i blaid yw'r rampiau uwch i lawr tuag at Calor Gas, sy'n wastraff arian gan fod lorïau a faniau mawr yn hedfan drostynt	<p>Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried cynigion i atal parcio ar y palmant ar hyn o bryd.</p> <p>Cynigir y caiff y terfyn cyflymder ar ffordd Tonna Uchaf ei ostwng o 30mya i 20mya o dan fenter 20mya Llywodraeth Cymru. Fel rhan o'r fenter 20mya, nid yw mesurau lleihau cyflymder fel twmpathau cyflymder yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru.</p>
11	Dim gwelliannau ar gyfer beicio.	<p>Mae angen i'r holl gynlluniau teithio llesol yng Nghymru gael eu dylunio yn unol â Chanllawiau Deddf Teithio Llesol Llywodraeth Cymru. Er mwyn dylunio ar gyfer darpariaeth cerdded a beicio, mae angen i lwybrau cyd-ddefnyddio fod yn 3.2m o led, mae angen i droedffyrdd fod yn 2.0m o led ac mae</p>


		<p>angen i lonydd beicio fod yn 1.5m o led, a hynny i'r naill gyfeiriad a'r llall. Mae'r lled sydd ar gael rhwng ffiniau eiddo yn annigonol i ddylunio ar gyfer darpariaeth beicio oddi ar y ffordd heb fod angen tir gan yr holl eiddo sy'n wynebu'r ffordd. O dan Ganllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol, mae'n bosibl hybu beicio ar y ffordd ar yr amod bod nifer y cerbydau'n llai na 2500 a bod cyflymder 85 canradd y traffig yn llai nag 20mya. Ym mis Ionawr 2023, lefel a chyflymder y traffig oedd 1193 o gerbydau yn teithio ar gyflymder 85 canradd o 30mya. Ar ôl i'r terfyn cyflymder 20mya gael ei gyflwyno ym mis Medi, byddwn yn monitro cyflymder y traffig unwaith eto er mwyn penderfynu pa mor addas yw'r ffordd ar gyfer beicio ar y ffordd.</p>
12	Dim un o'r uchod	<p>Drwy adeiladu'r llwybr hwn, rydym yn darparu llwybr cerdded diogel sy'n addas i bob defnyddiwr. Drwy ddarparu hyn, rydym yn rhoi'r opsiwn i bobl ddefnyddio dulliau teithio cynaliadwy eraill yn lle eu ceir.</p> <p>Diben y gwelliant hwn yw hybu teithio llesol yn yr ardal hon, sef blaenoriaeth Llwybr Newydd.</p> <p>Hierarchaeth teithio cynaliadwy</p> <p>Byddwn yn parhau i wneud y defnydd gorau o'r seilwaith trafniadaeth presennol trwy ei gynnal a'i reoli'n dda. Byddwn hefyd yn ei addasu ar gyfer hinsawdd sy'n newid ac yn ei uwchraddio i gefnogi dulliau teithio. Lle mae angen seilwaith newydd, byddwn yn defnyddio'r hierarchaeth teithio cynaliadwy.</p> 
13	<p>Fel beiciwr heini a rheolaidd, a dweud y gwir rwy'n credu y dylai arian gael ei wario ar gynnal a chadw'r ffyrdd yn yr ardal. Er mwyn annog beiciwr dibrofiad i fynd allan ar y ffyrdd, bydd angen iddynt fod mewn cyflwr digon da. Mae ein ffyrdd yn llawn tyllau peryglus a chaeadau draeniau wedi suddo. Mae angen mynd i'r afael â'r problemau hyn cyn gwario arian ar fesurau ar gyfer traffig a cherddwyr.</p>	<p>Diolch am eich sylw.</p> <p>Caiff y cynnig ei ariannu drwy Gronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru, a fwriedir ar gyfer gwella cyfleusterau teithio llesol ac ni ellir defnyddio'r cyllid i atgyweirio cerbytyffyrdd presennol.</p>



14	<p>Faint o gleifion sydd gan Ysbyty Tonna ar hyn o bryd? Os byddwch yn gwario'r holl arian hwn, ydych chi'n dweud y bydd Ysbyty Tonna yn aros ar agor? Roeddwn i dan yr argraff mai dim ond un ward oedd ar agor a bod y sefyllfa'n ansicr iawn o ran aros ar agor.</p>	<p>Nid yn unig y bydd y cynllun yn gwella mynediad i'r ysbyty, ond bydd hefyd yn helpu trigolion lleol i gyrraedd y pentref, y siop leol a'r seilwaith trafniadaeth gyhoeddus.</p>
15	<p>Mae'n ymddangos mai dim ond gwella cysylltedd i gerddwyr y mae'r prosiect arfaethedig presennol yn ei wneud, a all olygu y bydd cyfle'n cael ei golli o ystyried bod cyfleusterau cyd-ddefnyddio da mor agos.</p>	<p>Mae angen i'r holl gynlluniau teithio llesol yng Nghymru gael eu dylunio yn unol â Chanllawiau Deddf Teithio Llesol Llywodraeth Cymru. Er mwyn dylunio ar gyfer darpariaeth cerdded a beicio, mae angen i lwybrau cyd-ddefnyddio fod yn 3.2m o led, mae angen i droedffyrdd fod yn 2.0m o led ac mae angen i lonydd beicio fod yn 1.5m o led, a hynny i'r naill gyfeiriad a'r llall. Mae'r lled sydd ar gael rhwng ffiniau eiddo yn annigonol i ddylunio ar gyfer darpariaeth beicio oddi ar y ffordd heb fod angen tir gan yr holl eiddo sy'n wynebu'r ffordd. O dan Ganllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol, mae'n bosibl hybu beicio ar y ffordd ar yr amod bod nifer y cerbydau'n llai na 2500 a bod cyflymder 85 canradd y traffig yn llai nag 20mya. Ym mis Ionawr 2023, lefel a chyflymder y traffig oedd 1193 o gerbydau yn teithio ar gyflymder 85 canradd o 30mya. Ar ôl i'r terfyn cyflymder 20mya gael ei gyflwyno ym mis Medi, byddwn yn monitro cyflymder y traffig unwaith eto er mwyn penderfynu pa mor addas yw'r ffordd ar gyfer beicio ar y ffordd.</p>
16	<p>Nid oes angen y cynnig hwn.</p>	<p>Drwy adeiladu'r llwybr hwn, rydym yn darparu llwybr cerdded diogel sy'n addas i bob defnyddiwr. Drwy ddarparu hyn, rydym yn rhoi'r opsiwn i bobl ddefnyddio dulliau teithio cynaliadwy eraill yn lle eu ceir.</p> <p>Diben y gwelliant hwn yw hybu teithio llesol yn yr ardal hon, sef blaenoriaeth Llwybr Newydd.</p> <p>Hierarchaeth teithio cynaliadwy</p> <p>Byddwn yn parhau i wneud y defnydd gorau o'r seilwaith trafniadaeth presennol trwy ei gynnal a'i reoli'n dda. Byddwn hefyd yn ei addasu ar gyfer hinsawdd sy'n newid ac yn ei uwchraddio i gefnogi dulliau teithio. Lle mae angen seilwaith newydd, byddwn yn defnyddio'r hierarchaeth teithio cynaliadwy.</p> 



17	Yr unig beth cadarnhaol am y cynlluniau yw lledu'r palmant sy'n mynd i fyny Tonna Uchaf	Diolch am eich sylwadau cadarnhaol.
18	Dim byd	<p>Drwy adeiladu'r llwybr hwn, rydym yn darparu llwybr cerdded diogel sy'n addas i bob defnyddiwr. Drwy ddarparu hyn, rydym yn rhoi'r opsiwn i bobl ddefnyddio dulliau teithio cynaliadwy eraill yn lle eu ceir.</p> <p>Diben y gwelliant hwn yw hybu teithio llesol yn yr ardal hon, sef blaenoriaeth Llwybr Newydd.</p> <p>Hierarchaeth teithio cynaliadwy</p> <p>Byddwn yn parhau i wneud y defnydd gorau o'r seilwaith trafniadaeth presennol trwy ei gynnal a'i reoli'n dda. Byddwn hefyd yn ei addasu ar gyfer hinsawdd sy'n newid ac yn ei uwchraddio i gefnogi dulliau teithio. Lle mae angen seilwaith newydd, byddwn yn defnyddio'r hierarchaeth teithio cynaliadwy.</p> 
19	Dim un o'r uchod; bydd y gylchfan uwch yn creu problemau i gerbydau mwy, fel bysiau, lorïau, peiriannau fferm, cerbydau tynnu yn ogystal â cheir mwy. Peidiwch â thorri'r cymunedau llai i ffwrdd ac achosi problemau i fusnesau lleol. Mae'n [gair ar goll] iawn i chi ddarparu ar gyfer lleiafrifoedd ac nid dim ond y mwyafrif; bydd angen cerbydau ar bobl i fynd o le i le bob amser, yn enwedig pobl sy'n byw mewn ardaloedd anghysbell	<p>Bydd y gylchfan ar gyffordd Tonna Uchaf/Heol Dulais Fach/Stryd y Parc yn cael ei chodi yn ei chyfanrwydd er mwyn ffurfio llwyfan uwch. Cynigir y bydd llinellau'r cyrbiau'n aros yn yr un lle, y bydd yr ynysoedd canol ar y ffyrdd dynesu'n cael eu tynnu oddi yno ac y bydd canol y gylchfan yn cael ei baentio ar y llwyfan uwch. Bydd y llwyfan uwch yn ymestyn ar draws lled y gylchfan gyda rampiau ar y ffyrdd dynesu er mwyn i gerbydau allu mynd drosodd yn ddiogel – fel y gwelir yn yr enghraifft isod</p>  <p>Drwy gadw llinell y cwrw yn yr un lle a chael gwared ar yr ynysoedd traffig, bydd ychydig yn haws i gerbydau (yn enwedig cerbydau mwy) fynd o amgylch y gylchfan nag yw hi ar hyn o bryd.</p>
20	Llwybr Teithio Llesol FR-TON-SU001 Stryd Pen Y Bryn – Mae'r fynedfa i stryd Pen Y Bryn eisoes yn gul i fynd i mewn iddi, heb y cynnig i ledu'r llwybr troed. Gydag ystyriaeth	Mae mynedfa Pen Y Bryn wedi cael ei dylunio yn unol â DE604 o Ganllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol.

	<p>ychwanegol sef bod carafannau a cherbydau mawr eraill yn manwfro i mewn ac allan o'r stryd, rydym yn teimlo bod y gwaith arfaethedig i gyffordd Pen Y Bryn yn ddiangen ac mai hyn fydd y prif ffactor a fydd yn achosi damweiniau.</p> <p>Rydym wedi bod yn byw ar y stryd ers 8 mlynedd ac nid oes damweiniau na digwyddiadau wedi digwydd ar y gyffordd hon, boed yn gysylltiedig â cherbydau neu gerddwyr. Byddaf yn aml yn cerdded yn ôl ac ymlaen i'r ysgol ac nid wyf wedi cael problemau wrth ddefnyddio'r groesfan bresennol ar y gyffordd hon. Ar hyn o bryd, mae cerbydau'n symud yn araf i mewn ac allan o'r gyffordd oherwydd ael y rhiw a'r fynedfa gul sydd yno ar hyn o bryd. Mae'n anodd gweld cerbydau sy'n dod atoch i fyny'r rhiw er mwyn gallu tynnu allan yn ddiogel heb ledu'r llwybr troed. Gan mai hon yw'r unig ffordd i mewn i'r stryd, bydd hyn yn achosi oedi a tharfu diangen ar fywydau trigolion yn y gymuned. Fodd bynnag, rydym yn credu y byddai gweddill y cynnig yn fuddiol i'r gymuned, yn enwedig gwneud y gylchfan yn groesfan fwy diogel a mwy addas i gerddwyr.</p>	<p>Diolch am eich sylwadau cadarnhaol ynglŷn â gweddill y cynllun.</p>
21	<p>Yn ychwanegol at y cynigion bydd angen gosod rampiau cyflymder i ostegu traffig ar y ffordd i lawr rhiw Tonna Uchaf er mwyn arafu cerbydau cyn cyffordd Heol Caredig sy'n cael ei defnyddio gryn dipyn er mwyn cyrraedd siop Spar. Rwyf wedi codi'r mater hwn â chynghorydd lleol pan oedd yn dod o gwmpas yn chwilio am bleidleisiau ond nid wyf wedi cael ateb. Mae rampiau eisoes wedi'u gosod ar Heol Dulais Fach</p>	<p>Cynigir y caiff y terfyn cyflymder ar ffordd Tonna Uchaf ei ostwng o 30mya i 20mya o dan fenter 20mya Llywodraeth Cymru. Fel rhan o'r fenter 20mya, nid yw mesurau lleihau cyflymder fel twmpathau cyflymder yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru.</p>
22	<p>Os byddwch yn lledu'r llwybrau troed, sut bydd hynny'n fwy diogel i feicwyr?</p>	<p>Mae angen i'r holl gynlluniau teithio llesol yng Nghymru gael eu dylunio yn unol â Chanllawiau Deddf Teithio Llesol Llywodraeth Cymru. Er mwyn dylunio ar gyfer darpariaeth cerdded a beicio, mae angen i lwybrau cyd-ddefnyddio fod yn 3.2m o led, mae angen i droedffyrdd fod yn 2.0m o led ac mae angen i lonydd beicio fod yn 1.5m o led, a hynny i'r naill gyfeiriad a'r llall. Mae'r lled sydd ar gael rhwng ffiniau eiddo yn annigonol i ddylunio ar gyfer darpariaeth beicio oddi ar y ffordd heb fod angen tir gan yr holl eiddo sy'n wynebu'r ffordd. O dan Ganllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol, mae'n bosibl hybu beicio ar y ffordd ar yr amod bod nifer y</p>

		<p>cerbydau'n llai na 2500 a bod cyflymder 85 canradd y traffig yn llai nag 20mya. Ym mis Ionawr 2023, lefel a chyflymder y traffig oedd 1193 o gerbydau yn teithio ar gyflymder 85 canradd o 30mya. Ar ôl i'r terfyn cyflymder 20mya gael ei gyflwyno ym mis Medi, byddwn yn monitro cyflymder y traffig unwaith eto er mwyn penderfynu pa mor addas yw'r ffordd ar gyfer beicio ar y ffordd.</p>
23	<p>Nid oes dim teilyngdod i'r cynigion hyn. Gwastraff arian llwyr. Llenwch y tyllau yn y ffordd yn gyntaf.</p>	<p>Drwy adeiladu'r llwybr hwn, rydym yn darparu llwybr cerdded diogel sy'n addas i bob defnyddiwr. Drwy ddarparu hyn, rydym yn rhoi'r opsiwn i bobl ddefnyddio dulliau teithio cynaliadwy eraill yn lle eu ceir.</p> <p>Diben y gwelliant hwn yw hybu teithio llesol yn yr ardal hon, sef blaenoriaeth Llwybr Newydd.</p> <p>Hierarchaeth teithio cynaliadwy</p> <p>Byddwn yn parhau i wneud y defnydd gorau o'r seilwaith trafniadaeth presennol trwy ei gynnal a'i reoli'n dda. Byddwn hefyd yn ei addasu ar gyfer hinsawdd sy'n newid ac yn ei uwchraddio i gefnogi dulliau teithio. Lle mae angen seilwaith newydd, byddwn yn defnyddio'r hierarchaeth teithio cynaliadwy.</p>  <p>The diagram illustrates a hierarchy of sustainable transport options. It consists of four red trapezoidal boxes arranged vertically, each with a corresponding icon to its left. From top to bottom, the levels are: 1. 'Cerdded a Beicio' (Walking and Cycling) with an icon of a person walking and a bicycle. 2. 'Trafniadaeth Gyhoeddus' (Public Transport) with an icon of a train. 3. 'Cerbydau allyriadau isel iawn' (Low-emission vehicles) with an icon of a car with a leaf symbol. 4. 'Cerbydau Modur Preifat Eraill' (Other private motor vehicles) with an icon of a car.</p> <p>Caiff y cynnig ei ariannu drwy Gronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru, a fwriedir ar gyfer gwella cyfleusterau teithio llesol ac ni ellir defnyddio'r cyllid i lenwi tyllau yn y ffordd.</p>
24	<p>Ddim yn cytuno ag unrhyw un o'r opsiynau</p>	<p>Drwy adeiladu'r llwybr hwn, rydym yn darparu llwybr cerdded diogel sy'n addas i bob defnyddiwr. Drwy ddarparu hyn, rydym yn rhoi'r opsiwn i bobl ddefnyddio dulliau teithio cynaliadwy eraill yn lle eu ceir.</p> <p>Diben y gwelliant hwn yw hybu teithio llesol yn yr ardal hon, sef blaenoriaeth Llwybr Newydd.</p>

		<p>Hierarchaeth teithio cynaliadwy</p> <p>Byddwn yn parhau i wneud y defnydd gorau o'r seilwaith trafniadaeth presennol trwy ei gynnal a'i reoli'n dda. Byddwn hefyd yn ei addasu ar gyfer hinsawdd sy'n newid ac yn ei uwchraddio i gefnogi dulliau teithio. Lle mae angen seilwaith newydd, byddwn yn defnyddio'r hierarchaeth teithio cynaliadwy.</p>  <p>The diagram illustrates a hierarchy of sustainable transport modes. It consists of four red trapezoidal boxes arranged vertically, each with a corresponding icon to its left. From top to bottom: 1. 'Cerdded a Beicio' (Walking and Cycling) with an icon of a person and a bicycle. 2. 'Trafniadiaeth Gyhoeddus' (Public Transport) with an icon of a train. 3. 'Cerbydau allyriadau isel iawn' (Low-emission vehicles) with an icon of a car with a leaf symbol. 4. 'Cerbydau Modur Preifat Eraill' (Other Private Motor Vehicles) with an icon of a car.</p>
25	<p>Ddim yn hoffi'r cynigion gan fod llawer o dagfeydd drwy bentref Tonna i gyd ar hyn o bryd, yn enwedig yn yr ardal lle mae'r siop. Bydd culhau cyffyrdd yn achosi mwy o dagfeydd, yn enwedig ar gyffordd Pen Y Bryn gan ei bod yn ddigon cul fel mae hi. Rwy'n gallu deall codi croesfannau er mwyn helpu preswylwyr yr ysbyty ond cadwch y ffyrdd yr un lled oherwydd rwy'n siŵr bod mwy o draffig na phreswylwyr yr ysbyty'n cerdded. Byddai dod o hyd i dir lle y gall staff ac ymwelwyr yr ysbyty barcio yn ddefnydd gwell o gyllid. Hefyd, mae'r terfyn cyflymder 20mya yn beth cadarnhaol.</p>	<p>Mae mynedfa Pen Y Bryn wedi cael ei dylunio yn unol â DE604 o Ganllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol.</p> <p>Mater i'r GIG yw parcio ar dir yr ysbyty ac nid yw o fewn cwmplas y prosiect hwn. Caiff y cynnig ei ariannu drwy Gronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru, a fwriedir ar gyfer gwella cyfleusterau teithio llesol ac ni ellir defnyddio'r cyllid i gynyddu cyfleusterau parcio yn yr ysbyty.</p> <p>Diolch am eich sylwadau cadarnhaol.</p>
26	<p>Nid wyf yn credu bod angen unrhyw welliant</p>	<p>Drwy adeiladu'r llwybr hwn, rydym yn darparu llwybr cerdded diogel sy'n addas i bob defnyddiwr. Drwy ddarparu hyn, rydym yn rhoi'r opsiwn i bobl ddefnyddio dulliau teithio cynaliadwy eraill yn lle eu ceir.</p> <p>Diben y gwelliant hwn yw hybu teithio llesol yn yr ardal hon, sef blaenoriaeth Llwybr Newydd.</p>


		<p>Hierarchaeth teithio cynaliadwy</p> <p>Byddwn yn parhau i wneud y defnydd gorau o'r seilwaith trafniadaeth presennol trwy ei gynnal a'i reoli'n dda. Byddwn hefyd yn ei addasu ar gyfer hinsawdd sy'n newid ac yn ei uwchraddio i gefnogi dulliau teithio. Lle mae angen seilwaith newydd, byddwn yn defnyddio'r hierarchaeth teithio cynaliadwy.</p> 
27	<p>Mae cyffordd Pen Y Bryn yn rhy gul nawr wrth fynd i mewn neu allan; bydd ei gwneud yn gulach yn achosi llawer o broblemau i'r stryd hon</p>	<p>Mae mynedfa Pen Y Bryn wedi cael ei dylunio yn unol â DE604 o Ganllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol.</p>
28	<p>Nid wyf yn hoffi dim byd am y cynlluniau hyn. Fel cymudwr dyddiol sy'n teithio ar y ffyrdd hyn, mae'r twmpathau traffig sydd eisoes yn Nhonna wedi achosi problemau dirif i mi o ran yr angen i wneud gwaith atgyweirio ar fy nghar. Dim ond yr wythnos hon rwyf wedi bod yn y garej gyda fy nghar eto. Nawr mae angen i mi gael gosod plygiadau newydd ar fy mar gwrth-rolio, a fydd yn costio £400.00. A pheidiwch â sôn am gyflwr y ffyrdd a'r tyllau sydd yn yr ardal hon. Byddai'n well gwario arian ar roi wyneb newydd ar y ffyrdd yn yr ardal hon yn hytrach na gwneud y newidiadau rydych chi'n eu cynnig. Mae faint o dears ac olwynion aloi rwyf wedi'u cael yn gywilyddus. Rwy'n credu bod angen i ni i gyd ddechrau bilio'r cyngor am yr holl broblemau hyn. Felly, yn bendant, na yw fy ateb i i'r cynigion hyn.</p>	<p>Drwy adeiladu'r llwybr hwn, rydym yn darparu llwybr cerdded diogel sy'n addas i bob defnyddiwr. Drwy ddarparu hyn, rydym yn rhoi'r opsiwn i bobl ddefnyddio dulliau teithio cynaliadwy eraill yn lle eu ceir.</p> <p>Diben y gwelliant hwn yw hybu teithio llesol yn yr ardal hon, sef blaenoriaeth Llwybr Newydd.</p> <p>Hierarchaeth teithio cynaliadwy</p> <p>Byddwn yn parhau i wneud y defnydd gorau o'r seilwaith trafniadaeth presennol trwy ei gynnal a'i reoli'n dda. Byddwn hefyd yn ei addasu ar gyfer hinsawdd sy'n newid ac yn ei uwchraddio i gefnogi dulliau teithio. Lle mae angen seilwaith newydd, byddwn yn defnyddio'r hierarchaeth teithio cynaliadwy.</p> 
29	<p>Nid wyf yn hoffi unrhyw ran o'r cynnig</p>	<p>Drwy adeiladu'r llwybr hwn, rydym yn darparu llwybr cerdded diogel sy'n addas i bob defnyddiwr. Drwy ddarparu hyn, rydym yn rhoi'r opsiwn i bobl ddefnyddio dulliau teithio cynaliadwy eraill yn lle eu ceir.</p> <p>Diben y gwelliant hwn yw hybu teithio llesol yn yr ardal hon, sef blaenoriaeth Llwybr Newydd.</p>

		<p>Hierarchaeth teithio cynaliadwy</p> <p>Byddwn yn parhau i wneud y defnydd gorau o'r seilwaith trafnidiaeth presennol trwy ei gynnal a'i reoli'n dda. Byddwn hefyd yn ei addasu ar gyfer hinsawdd sy'n newid ac yn ei uwchraddio i gefnogi dulliau teithio. Lle mae angen seilwaith newydd, byddwn yn defnyddio'r hierarchaeth teithio cynaliadwy.</p> 
30	Nid wyf yn hapus ag unrhyw ran o'r cynnig.	<p>Drwy adeiladu'r llwybr hwn, rydym yn darparu llwybr cerdded diogel sy'n addas i bob defnyddiwr. Drwy ddarparu hyn, rydym yn rhoi'r opsiwn i bobl ddefnyddio dulliau teithio cynaliadwy eraill yn lle eu ceir.</p> <p>Diben y gwelliant hwn yw hybu teithio llesol yn yr ardal hon, sef blaenoriaeth Llwybr Newydd.</p> <p>Hierarchaeth teithio cynaliadwy</p> <p>Byddwn yn parhau i wneud y defnydd gorau o'r seilwaith trafnidiaeth presennol trwy ei gynnal a'i reoli'n dda. Byddwn hefyd yn ei addasu ar gyfer hinsawdd sy'n newid ac yn ei uwchraddio i gefnogi dulliau teithio. Lle mae angen seilwaith newydd, byddwn yn defnyddio'r hierarchaeth teithio cynaliadwy.</p> 
31	Nid wyf yn hoffi unrhyw ran ohono	<p>Drwy adeiladu'r llwybr hwn, rydym yn darparu llwybr cerdded diogel sy'n addas i bob defnyddiwr. Drwy ddarparu hyn, rydym yn rhoi'r opsiwn i bobl ddefnyddio dulliau teithio cynaliadwy eraill yn lle eu ceir.</p> <p>Diben y gwelliant hwn yw hybu teithio llesol yn yr ardal hon, sef blaenoriaeth Llwybr Newydd.</p>

		<p>Hierarchaeth teithio cynaliadwy</p> <p>Byddwn yn parhau i wneud y defnydd gorau o'r seilwaith trafniadaeth presennol trwy ei gynnal a'i reoli'n dda. Byddwn hefyd yn ei addasu ar gyfer hinsawdd sy'n newid ac yn ei uwchraddio i gefnogi dulliau teithio. Lle mae angen seilwaith newydd, byddwn yn defnyddio'r hierarchaeth teithio cynaliadwy.</p>  <p>The diagram illustrates a hierarchy of transport modes. On the left, there are four circular icons: a person walking with a bicycle, a bus, a car with a leaf symbol, and a private car. On the right, there are four red trapezoidal boxes, each containing text. From top to bottom, they are: 'Cerdded a Beicio', 'Trafnidiaeth Gyhoeddus', 'Cerbydau allyriadau isel iawn', and 'Cerbydau Modur Preifat Eraill'.</p>
32	Bydd y ffyrdd yn waeth; mae mor anodd mynd i mewn i stryd Pen Y Bryn nawr; os bydd y ffyrdd yn gulach, bydd hi'n amhosibl	Mae mynedfa Pen Y Bryn wedi cael ei dylunio yn unol â DE604 o Ganllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol.
33	Rwy'n credu y dylai'r ffocws fod ar ychwanegu llwybrau beicio diogel neu balmant i draffig ar droed lle nad ydynt yn bodoli, yn hytrach na gwella palmentydd ar gyfer traffig ar droed yn unig! Mae'n siom i mi fod cymunedau'r cymoedd, sydd â thrafnidiaeth gyhoeddus gyfyngedig ac nad oes ganddynt lwybrau teithio llesol, yn gorfod aros wrth i fân newidiadau i balmentydd sydd eisoes yn bodoli ar gyfer traffig ar droed mewn ardaloedd sy'n cael eu gwasanaethu'n dda gan drafnidiaeth gyhoeddus gael eu blaenoriaethu!	<p>Mae'r llwybr hwn wedi cael ei ddisbarthu fel llwybr sydd eisoes yn bodoli oherwydd y cysylltiadau pwysig â'r ysbty. Mae'r llwybr wedi methu yn yr archwiliad llwybrau, gyda methiant difrifol oherwydd prinder cyfleusterau croesi diogel. O ganlyniad i hynny, mae blaenoriaeth wedi cael ei rhoi i gwblhau'r llwybr hwn.</p> <p>Caiff llwybrau a nodwyd ar Fap Rhwydwaith Teithio Llesol CNPT eu hystyried yn y dyfodol.</p>


Cwestiwn 3

Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn i'r trigolion beth nad ydynt yn ei hoffi am y cynnig. Gallai'r trigolion ddewis un neu fwy o ymatebion.




Cwestiwn 4


Gofynnwyd i gyfranogwyr yr ymgynghoriad beth yw eu cysylltiad â'r ardal, ac roedd mwy na 70% yn drigolion.




Cwestiwn 5



Cwestiwn 6



Cwestiwn 7




Cwestiwn 8


Gofynnwyd i'r cyfranogwyr, **“Os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ychwanegol ynghylch y cynigion, darparwch y rhain yn y blwch isod.”**


(Mae'r sylwadau wedi'u cynnwys fel y daethant i law)


	Sylw	Ymateb Swyddogion y Cyngor
1	Ymgynghori â'r siop leol er mwyn gweld a oes modd gwella'r sefyllfa o ran parcio ar gyfer defnyddwyr y siop er mwyn cael gwared ar yr angen i gerbydau facio'n ôl allan o ddreif y siop gan fod hynny'n beryglus	<p>Diolch am godi eich pryderon ynglŷn â gweithredoedd gyrwyr sy'n dod allan o faes parcio Spar.</p> <p>Bydd y llinell ildio ar gyfer Heol Caredig yn cael ei haddasu er mwyn ei symud ymlaen i roi mwy o le rhwng y fynedfa i'r maes parcio a'r gyffordd. Cynigir cyfyngiadau parcio estynedig gyferbyn â'r fynedfa i faes parcio'r siop er mwyn gwella gwelededd.</p> <p>Caiff y cynnig ei ariannu drwy Gronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru, a fwriedir ar gyfer gwella cyfleusterau teithio llesol ac ni ellir defnyddio'r cyllid i wella darpariaeth ar gyfer parcio.</p>
2	Nid yw'n ymddangos bod ffordd ddiogel o fynd o stryd Pen Y Bryn i'r safle bysiau a'r siop gornel. Mae'r cysylltiad o'r ysbyty i Heol-Y-Glo yn ddiangen; byddai'n annog staff yr ysbyty i	Y lle mwyaf diogel i osod croesfan o stryd Pen Y Bryn i'r siopau yw ar groesfan y gylchfan. Bydd y groesfan yn Heol-Y-Glo yn cynnig man croesi diogel o'r stad i ochr arall y ffordd.

	<p>barcio ar y stryd ac ni fyddai hynny o fudd i'r trigolion a byddai'n wastraff arian. Mae taer angen lledu'r ffordd gyferbyn â'r ysbyty neu ddarparu lleoedd parcio. Caiff yr ardal hon lawer o ddefnydd gan staff yr ysbyty ac mae hynny'n cyfyngu ar lif y traffig.</p> <p>Mae'n beryglus mynd o'r lôn i'r brif ffordd ar gyffordd Heol-Y-Glo am nad yw pobl yn arafu ac am fod gweledd yn wael. Mae angen rhyw fath o fesur lleihau cyflymder.</p> <p>Byddai hyn yn gwneud y ffordd yn fwy diogel i feicwyr a defnyddwyr eraill y ffordd. Byddai'r gylchfan uwch yn ddelfrydol am ei bod yn anodd croesi ar droed neu ar ddwy olwyn.</p> <p>Mae gweledd yn wael iawn i'r dde wrth adael y gyffordd wrth y siop gornel. Mae'n anodd i ddefnyddwyr y ffordd a cherddwyr groesi neu fynd o un lle i'r llall yn ddiogel. Nid yw'r llwybr troed ar ochr Pen Y Bryn yn cael llawer o ddefnydd ac nid yw'n cynnig budd i'r gymuned. Fodd bynnag, pe baech yn lledu'r llwybr troed sydd eisoes yn gul ar yr ochr gyferbyn ac yn symud y gyffordd ymlaen wrth y siop gornel gyda chroesfan uwch, byddai'n cael defnydd.</p>	<p>Mae mater parcio anghyfreithlon wedi cael ei godi â'n tîm gorfodi parcio.</p> <p>Mater i'r GIG yw parcio ar dir yr ysbyty ac nid yw o fewn cwmpas y prosiect hwn.</p> <p>Caiff y cynnig ei ariannu drwy Gronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru, a fwriedir ar gyfer gwella cyfleusterau teithio llesol ac ni ellir defnyddio'r cyllid i wella darpariaeth ar gyfer parcio na lledu cerbyttyrdd.</p> <p>Cynigir cyflwyno rhan 40mya ar y ffordd i mewn i'r pentref rhwng y rhan 60mya bresennol a'r rhan 20mya arfaethedig, er mwyn arafu cerbydau ar y ffordd i mewn i'r ardal breswyl.</p> <p>Diolch am y sylw cadarnhaol am y gylchfan. Mae mynedfeydd Pen Y Bryn a Heol Caredig wedi cael eu dylunio yn unol â DE604 o Ganllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol.</p> <p>Bydd y ffordd yn aros yr un lled a bydd y gyffordd yn symud fymryn ymhellach i mewn i'r ffordd, a fydd yn gwella gweledd i'r defnyddwyr wrth ddelio â'r gyffordd.</p> <p>Caiff croesfannau uwch eu hadeiladu ar draws y naill gyffordd a'r llall.</p> <p>Byddwn yn lledu'r llwybr troed ar y ddwy ochr i'r 2m sy'n ofynnol yn ôl Canllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol, DE101</p>
3	<p>Mae'n amlwg bod gwaith meddwl yn cael ei wneud er mwyn sicrhau ei bod yn haws cyrraedd yr ysbyty, ond troi'r pentref yn faes parcio yw opsiwn 2, gyda'r droedffordd wedi'i thorri'n syth drwy'r glaswellt... Dylech fod yn gwneud cynlluniau/syniadau ar gyfer gwella tir yr ysbyty ei hun fel na fydd yn rhaid i bobl gerdded ar draws y brif ffordd.</p>	<p>Mae mater parcio anghyfreithlon wedi cael ei godi â'n tîm gorfodi parcio.</p> <p>Mater i'r GIG yw parcio ar dir yr ysbyty ac nid yw o fewn cwmpas y prosiect hwn.</p> <p>Caiff y cynnig ei ariannu drwy Gronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru, a fwriedir ar gyfer gwella cyfleusterau teithio llesol ac ni ellir defnyddio'r cyllid i wella darpariaeth ar gyfer parcio.</p>
4	<p>Fy awgrym i fyddai creu mwy o leoedd parcio ar dir yr ysbyty i gyflogeion, ac felly byddai'r ffordd yn llawer mwy hygyrch</p>	<p>Mae mater parcio anghyfreithlon wedi cael ei godi â'n tîm gorfodi parcio.</p> <p>Mater i'r GIG yw parcio ar dir yr ysbyty ac nid yw o fewn cwmpas y prosiect hwn.</p> <p>Caiff y cynnig ei ariannu drwy Gronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru, a fwriedir ar gyfer gwella cyfleusterau teithio llesol ac ni ellir defnyddio'r cyllid i wella darpariaeth ar gyfer parcio.</p>

5	Mae beicwyr yn anwybyddu'r llwybrau beicio a gafodd eu hadeiladu ar draul trethdalwyr	Diolch am eich sylw
6	Bydd y gylchfan uwch yn ei gwneud hi'n anodd manwro drwy'r rhan hon. Mae'n gylch troi tynn yn barod. Hefyd, ni fydd cerbydau mwy yn gallu mynd drwy'r ardal hon oni chaiff y cylch troi ei led	<p>Bydd y gylchfan ar gyffordd Tonna Uchaf/Heol Dulais Fach/Stryd y Parc yn cael ei chodi yn ei chyfanrwydd er mwyn ffurfio llwyfan uwch. Cynigir y bydd llinellau'r cyrbiau'n aros yn yr un lle, y bydd yr ynysoedd canol ar y ffyrdd dynesu'n cael eu tynnu oddi yno ac y bydd canol y gylchfan yn cael ei baentio ar y llwyfan uwch. Bydd y llwyfan uwch yn ymestyn ar draws lled y gylchfan gyda rampiau ar y ffyrdd dynesu er mwyn i gerbydau allu mynd drosodd yn ddiogel – fel y gwelir yn yr enghraifft isod</p>  <p>Drwy gadw llinell y cwrb yn yr un lle a chael gwared ar yr ynysoedd traffig, bydd ychydig yn haws i gerbydau (yn enwedig cerbydau mwy) fynd o amgylch y gylchfan nag yw hi ar hyn o bryd.</p>
7	Byddai'r manau croesi yn well pe baent yn wahanol liw neu ddeunydd i weddill y gerbyttffordd (aneglur yn y cynlluniau) fel y bydd ceir yn ystyried y gall cerddwyr fod yn croesi. Rhaid gwneud gwelliannau ar gyfer teithio llesol gan fod y sgôr yn yr archwiliad yn wael iawn	<p>Diolch am eich sylw.</p> <p>Nid yw arwyneb lliw yn cael ei gynnig fel rhan o'r cynllun.</p> <p>Bydd y gwelliannau'n gwella'r sgoriau yn yr archwiliad ar gyfer cerdded a beicio.</p>
8	Y beicwyr yw'r rhai sy'n mynd yn rhy gyflym o gwmpas y gyffordd â Heol Dulais Fach, a hynny'n aml gan weiddi ar ei gilydd	Diolch am eich sylw
9	Dylai'r cyngor ystyried bod diogelwch y cymuned yw'r peth pwysicach wrth cyflwyno cynlluniau newydd	Mae'r cyngor yn ystyried bod diogelwch y gymuned yn bwysig wrth gyflwyno cynlluniau newydd
10	Yn Nhonna, dim ond un brif ffordd sy'n cysylltu Castell-nedd â'r prif draffyrdd a hefyd yn Resolfen mae'r traffig ar y ffyrdd yn aruthrol ac ni fyddai llawer o'r newidiadau a gynigir yn gwneud dim ond achosi tagfeydd, oedi a hyd yn oed ddamweiniau	Bydd y cynnig yn gwella cyfleusterau ar gyfer cerdded yn yr ardal leol, gan gysylltu â chyfleusterau trafndiaeth gyhoeddus a galluogi pobl i ddewis teithio drwy ddulliau mwy cynaliadwy yn hytrach na defnyddio car preifat.
11	Gwnewch rywbeth ynglŷn â pharcio ar balmentydd, sy'n siŵr o achosi damweiniau, cyn i chi wastraffu arian	Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried cynigion i atal parcio ar y palmant ar hyn o bryd.

12	<p>Mae eich cynnig i osod cylchfan uwch wrth ymyl siop Spar yn cael ei wrthod yn gadarn. Mae'n gylchfan brysur ac mae cerbydau mwy eisoes yn cael cryn anhawster ar y gylchfan hon. Bydd cylchfan uwch o'r un maint â'r un bresennol yn achosi anawsterau yn ddiangen.</p>	<p>Bydd y gylchfan ar gyffordd Tonna Uchaf/Heol Dulais Fach/Stryd y Parc yn cael ei chodi yn ei chyfanrwydd er mwyn ffurfio llwyfan uwch. Cynigir y bydd llinellau'r cyrbiau'n aros yn yr un lle, y bydd yr ynysoedd canol ar y ffyrdd dynesu'n cael eu tynnu oddi yno ac y bydd canol y gylchfan yn cael ei baentio ar y llwyfan uwch. Bydd y llwyfan uwch yn ymestyn ar draws lled y gylchfan gyda rampiau ar y ffyrdd dynesu er mwyn i gerbydau allu mynd drosodd yn ddiogel – fel y gwelir yn yr enghraifft isod</p>  <p>Drwy gadw llinell y cwrb yn yr un lle a chael gwared ar yr ynysoedd traffig, bydd ychydig yn haws i gerbydau (yn enwedig cerbydau mwy) fynd o amgylch y gylchfan nag yw hi ar hyn o bryd.</p>
13	<p>Bydd culhau Pen Y Bryn yn achosi mwy o anawsterau i gerbydau. Nid yw'r cynnig yn helpu o ran ymwelwyr â'r ysbyty ar y ffordd y tu allan. Bydd cylchfan uwch ger Spar yn achosi anhrefn i fysiau a cherbydau nwyddau mawr sydd eisoes yn ei chael hi'n anodd mynd o'i chwmpas. Hefyd, hwn yw un o'r ddau brif lwybr i mewn i weddill y pentref ac eto nid yw'r rhan fwyaf o drigolion Tonna'n cael llythyrau ymgynghori.</p>	<p>Mae mynedfa Pen Y Bryn wedi cael ei dylunio yn unol â DE604 o Ganllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol.</p> <p>Bydd y gylchfan ar gyffordd Tonna Uchaf/Heol Dulais Fach/Stryd y Parc yn cael ei chodi yn ei chyfanrwydd er mwyn ffurfio llwyfan uwch. Cynigir y bydd llinellau'r cyrbiau'n aros yn yr un lle, y bydd yr ynysoedd canol ar y ffyrdd dynesu'n cael eu tynnu oddi yno ac y bydd canol y gylchfan yn cael ei baentio ar y llwyfan uwch. Bydd y llwyfan uwch yn ymestyn ar draws lled y gylchfan gyda rampiau ar y ffyrdd dynesu er mwyn i gerbydau allu mynd drosodd yn ddiogel – fel y gwelir yn yr enghraifft isod</p>  <p>Drwy gadw llinell y cwrb yn yr un lle a chael gwared ar yr ynysoedd traffig, bydd ychydig yn haws i gerbydau (yn enwedig cerbydau mwy) fynd o amgylch y gylchfan nag yw hi ar hyn o bryd.</p>
14	<p>Fel beiciwr mynych, nid cyflymder y traffig yw fy mhrif bryder i, ond cyflwr gwael ein ffyrdd. Gallwch roi cynifer o fesurau gostegu</p>	<p>Caiiff y cynnig ei ariannu drwy Gronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru, a fwriedir ar gyfer gwella cyfleusterau teithio llesol ac ni ellir</p>

	<p>traffig ar waith ag yr hoffech chi ond, nes y caiff y tyllau yn y ffordd eu llenwi, nes y caiff y caeadau draeniau a thyllau archwilio sydd wedi suddo eu hatgyweirio a nes y caiff wyneb tarmac newydd ei roi ar y ffordd, ni fydd y cynlluniau hyn yn annog beicwyr dibrofiad i fynd allan ar y ffyrdd. Cymerwch gam yn ôl ac edrychwch ar y darlun ehangach. Atgyweiriwch y ffyrdd yn gyntaf.</p>	<p>defnyddio'r cyllid i atgyweirio cerbyffyrdd presennol.</p>
15	<p>A dweud y gwir, rwy'n credu y bydd y gylchfan uwch arfaethedig ar gyffwrdd Stryd y Parc, Heol Dulais Fach a Thonna Uchaf yn achosi problemau i gerbydau mwy sy'n ceisio delio â'r gyffwrdd. Mae gennym brif lwybr bysiau, cerbydau'n danfon nwyddau i'r siop leol ac ysbyty. Nid yw'r gyffwrdd yn ddigon llydan i'r cerbydau hyn droi ar y gyffwrdd hon; bydd y gylchfan uwch ond yn peri i'r cerbydau hyn yrru drosti, gan olygu ei bod yn anaddas.</p>	<p>Bydd y gylchfan ar gyffwrdd Tonna Uchaf/Heol Dulais Fach/Stryd y Parc yn cael ei chodi yn ei chyfanrwydd er mwyn ffurfio llwyfan uwch. Cynigir y bydd llinellau'r cyrbiau'n aros yn yr un lle, y bydd yr ynysoedd canol ar y ffyrdd dynesu'n cael eu tynnu oddi yno ac y bydd canol y gylchfan yn cael ei baentio ar y llwyfan uwch. Bydd y llwyfan uwch yn ymestyn ar draws lled y gylchfan gyda rampiau ar y ffyrdd dynesu er mwyn i gerbydau allu mynd drosodd yn ddiogel – fel y gwelir yn yr enghraifft isod</p>  <p>Drwy gadw llinell y cwrb yn yr un lle a chael gwared ar yr ynysoedd traffig, bydd ychydig yn haws i gerbydau (yn enwedig cerbydau mwy) fynd o amgylch y gylchfan nag yw hi ar hyn o bryd.</p>
16	<p>Rwy'n credu y byddai drych wrth ddod allan o stryd Pen Y Bryn i'r brif ffordd yn edrych i lawr y rhiw yn helpu; rwy'n byw yma ers bron i 70 mlynedd ac rwy'n synnu nad oes damwain wedi bod.</p>	<p>Mae mynedfa Pen Y Bryn wedi cael ei dylunio yn unol â DE604 o Ganllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol.</p> <p>Bydd y ffordd ei hun yn aros yr un lled a bydd y gyffwrdd yn symud fymryn ymhellach i mewn i'r ffordd, a bydd hyn yn gwella gwelededd i'r defnyddwyr wrth ddelio â'r gyffwrdd.</p>
17	<p>Mae angen mwy o leoedd parcio ar safle Ysbyty Tonna. Mae pobl yn parcio ar y brif ffordd, Bryn Awelon a Heol-Y-Glo, gan amharu ar drigolion. Pe baent yn parcio ar y safle, ni fyddai angen croesfannau i gerddwyr na'r holl newidiadau sy'n cael eu cynnig ar hyn o bryd.</p>	<p>Mae mater parcio anghyfreithlon wedi cael ei godi â'n tîm gorfodi parcio. Mater i'r GIG yw parcio ar dir yr ysbyty ac nid yw o fewn cwmpas y prosiect hwn.</p> <p>Caiff y cynnig ei ariannu drwy Gronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru, a fwriedir ar gyfer gwella cyfleusterau teithio llesol ac ni ellir</p>


		defnyddio'r cyllid i gynyddu darpariaeth ar gyfer parcio.
18	Rwy'n credu na fydd codi'r gylchfan yn gwneud dim ond difrodi cerbydau a'r gylchfan ei hun. Ond mae gweddill y cynnig yn edrych yn rhesymol	<p>Bydd y gylchfan ar gyffordd Tonna Uchaf/Heol Dulais Fach/Stryd y Parc yn cael ei chodi yn ei chyfanrwydd er mwyn ffurfio llwyfan uwch. Cynigir y bydd llinellau'r cyrbiau'n aros yn yr un lle, y bydd yr ynysoedd canol ar y ffyrdd dynesu'n cael eu tynnu oddi yno ac y bydd canol y gylchfan yn cael ei baentio ar y llwyfan uwch. Bydd y llwyfan uwch yn ymestyn ar draws lled y gylchfan gyda rampiau ar y ffyrdd dynesu er mwyn i gerbydau allu mynd drosodd yn ddiogel – fel y gwelir yn yr enghraifft isod</p>  <p>Drwy gadw llinell y cwrp yn yr un lle a chael gwared ar yr ynysoedd traffig, bydd ychydig yn haws i gerbydau (yn enwedig cerbydau mwy) fynd o amgylch y gylchfan nag yw hi ar hyn o bryd.</p>
19	Felly ydych chi'n dweud y bydd yn llwybr beicio hefyd? Os byddwch yn culhau'r ffordd, oni fydd hynny'n ei gwneud hi'n anoddach beicio heibio?	<p>Mae angen i'r holl gynlluniau teithio llesol yng Nghymru gael eu dylunio yn unol â Chanllawiau Deddf Teithio Llesol Llywodraeth Cymru. Er mwyn dylunio ar gyfer darpariaeth cerdded a beicio, mae angen i lwybrau cydddefnyddio fod yn 3.2m o led, mae angen i droedffyrdd fod yn 2.0m o led ac mae angen i lonydd beicio fod yn 1.5m o led, a hynny i'r naill gyfeiriad a'r llall. Mae'r lled sydd ar gael rhwng ffiniau eiddo yn annigonol i ddylunio ar gyfer darpariaeth beicio oddi ar y ffordd heb fod angen tir gan yr holl eiddo sy'n wynebu'r ffordd. O dan Ganllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol, mae'n bosibl hybu beicio ar y ffordd ar yr amod bod nifer y cerbydau'n llai na 2500 a bod cyflymder 85 canradd y traffig yn llai nag 20mya. Ym mis Ionawr 2023, lefel a chyflymder y traffig oedd 1193 o gerbydau yn teithio ar gyflymder 85 canradd o 30mya. Ar ôl i'r terfyn cyflymder 20mya gael ei gyflwyno ym mis Medi, byddwn yn monitro cyflymder y traffig unwaith eto er mwyn penderfynu pa mor addas yw'r ffordd ar gyfer beicio ar y ffordd.</p>
20	Bydd y gylchfan uwch ar ben uchaf Heol Dulais Fach yn ei gwneud hi'n anodd i	Bydd y gylchfan ar gyffordd Tonna Uchaf/Heol Dulais Fach/Stryd y Parc yn cael ei chodi yn ei chyfanrwydd er mwyn ffurfio llwyfan uwch.

	<p>gerbydau mwy ac yn beryglus i gerddwyr a all fod yno ar yr un pryd</p>	<p>Cynigir y bydd llinellau'r cyrbiau'n aros yn yr un lle, y bydd yr ynysoedd canol ar y ffordd dynesu'n cael eu tynnu oddi yno ac y bydd canol y gylchfan yn cael ei baentio ar y llwyfan uwch. Bydd y llwyfan uwch yn ymestyn ar draws lled y gylchfan gyda rampiau ar y ffordd dynesu er mwyn i gerbydau allu mynd drosodd yn ddiogel – fel y gwelir yn yr enghraifft isod</p>  <p>Drwy gadw llinell y cwrbb yn yr un lle a chael gwared ar yr ynysoedd traffig, bydd ychydig yn haws i gerbydau (yn enwedig cerbydau mwy) fynd o amgylch y gylchfan nag yw hi ar hyn o bryd.</p>
21	<p>O safbwynt gyrru, mae codi'r gylchfan yn afrealistig. Rwy'n gyrru Vauxhall Astra (car cymharol fach) ac mae'n gallu bod yn anodd iawn mynd o amgylch y gylchfan yn gyfan gwbl fel y mae hi. Fel arfer, bydd angen i mi fynd ar ben y gylchfan am fod y ffordd o'i chwmpas yn gul, oni fyddaf yn mynd yn araf iawn o amgylch y gylchfan, sy'n afrealistig. Mae'r gylchfan yn anwastad ac yn lletchwith; nid ydych yn gallu gweld yn iawn nes cyrraedd y gylchfan fel y mae hi. Mae'n beth cyffredin iawn i bobl orfod brecio'n sydyn wrth i gar ddod yn syth drosodd. Rwyf wedi teimlo erioed nad oes angen cylchfan yno yn y lle cyntaf am nad yw'r ffordd yn ddigon prysur. Goleuadau traffig fyddai'r opsiwn mwyaf diogel ar gyfer gwelededd. Byddai codi'r gylchfan yn golygu na fyddai bysiau na cherbydau mawr yn gallu delio â'r gylchfan o gwbl. Mae'n rhaid iddynt fynd drosti i droi yn barod. Bydd cerbydau danfon nwyddau mawr, bysiau a thractorau i gyd yn defnyddio'r llwybr hwn yn aml. Mae'n ymddangos y byddai ychwanegu croesfannau i gerddwyr ar y cyffyrdd hynny yn beryglus, oherwydd, fel y dywedais, mae'n gyffordd letchwith sydd â gwelededd gwael. Byddai cael rhwystr arall yn achosi rhwystredigaeth; mae gorfod stopio hanner ffordd o amgylch y fân gylchfan lle nad yw ceir yn gallu gweld wrth ddynesu am fod cerddwyr yn croesi yn beryglus.</p>	<p>Mae angen i'r holl gynlluniau teithio llesol yng Nghymru gael eu dylunio yn unol â Chanllawiau Deddf Teithio Llesol Llywodraeth Cymru. Er mwyn dylunio ar gyfer darpariaeth cerdded a beicio, mae angen i lwybrau cyd-ddefnyddio fod yn 3.2m o led, mae angen i droedffyrdd fod yn 2.0m o led ac mae angen i lonydd beicio fod yn 1.5m o led, a hynny i'r naill gyfeiriad a'r llall. Mae'r lled sydd ar gael rhwng ffiniau eiddo yn annigonol i ddylunio ar gyfer darpariaeth beicio oddi ar y ffordd heb fod angen tir gan yr holl eiddo sy'n wynebu'r ffordd. O dan Ganllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol, mae'n bosibl hybu beicio ar y ffordd ar yr amod bod nifer y cerbydau'n llai na 2500 a bod cyflymder 85 canradd y traffig yn llai nag 20mya. Ym mis Ionawr 2023, lefel a chyflymder y traffig oedd 1193 o gerbydau yn teithio ar gyflymder 85 canradd o 30mya. Ar ôl i'r terfyn cyflymder 20mya gael ei gyflwyno ym mis Medi, byddwn yn monitro cyflymder y traffig unwaith eto er mwyn penderfynu pa mor addas yw'r ffordd ar gyfer beicio ar y ffordd.</p>


	<p>Ychwanegu croesfan ar Heol Caredig – unwaith eto mae'n broblem o ran gweledd i yrrwr. Er nad yw'r ffordd yn un brysur, mae llawer iawn o bobl yn mynd i'r siop ac yn stopio o'i chwmpas i gyd ac, yn aml, bydd pobl yn parcio wrth y safle bysiau, ac ym mhobman ar y llinellau melyn dwbl a'r palmentydd, wrth iddynt neidio allan i fynd i nôl rhywbeth o'r siop.</p> <p>Byddai culhau'r ffordd, unwaith eto lle mae cerbydau mawr yn troi i mewn (danfon nwyddau i'r siop) yn wallgof. Mae angen lle arnynt. Byddai ychwanegu croesfan uwch yno yn ei gwneud hi'n anodd i'r cerbydau droi'n effeithlon, a byddai hefyd yn beryglus am fod ceir yn dod i lawr y rhiw o'r ysbyty heb fawr ddim gweledd nes eu bod wrth y llinell ildio; bydd pobl yn aml bron â chael damwain am na all y ceir weld ei gilydd; unwaith eto, byddai ychwanegu croesfan yno yn peri i'r traffig stopio ac aros wrth i'r cerddwyr groesi, gan beri risg i'r ceir sy'n dod rownd y gornel ac i mewn i draffig llonydd. Mae angen ychwanegu lonydd beicio lle mae modd gwneud hynny, ond nid oes gennym lawer o le, yn enwedig os byddwch yn lledu palmentydd.</p>	
22	<p>A fydech cystal ag ystyried sut y gellid neilltuo lle ar gyfer beicio, boed ar y ffordd neu oddi ar y ffordd. Er fy mod yn gwerthfawrogi bod hyn y tu allan i gwmpas y prosiect hwn, nid yw'r cynllun arfaethedig yn gadael hyd yn oed bosibilrwydd cudd o gysylltiad pellach ar gyfer beicio i Heol Dulais Fach er mwyn cysylltu â'r llwybr cyd-ddefnyddio wrth ymyl y gamlas sy'n mynd i gyfeiriad Castell-nedd.</p>	<p>Mae angen i'r holl gynlluniau teithio llesol yng Nghymru gael eu dylunio yn unol â Chanllawiau Deddf Teithio Llesol Llywodraeth Cymru. Er mwyn dylunio ar gyfer darpariaeth cerdded a beicio, mae angen i lwybrau cyd-ddefnyddio fod yn 3.2m o led, mae angen i droedffyrdd fod yn 2.0m o led ac mae angen i lonydd beicio fod yn 1.5m o led, a hynny i'r naill gyfeiriad a'r llall. Mae'r lled sydd ar gael rhwng ffiniau eiddo yn annigonol i ddylunio ar gyfer darpariaeth beicio oddi ar y ffordd heb fod angen tir gan yr holl eiddo sy'n wynebu'r ffordd. O dan Ganllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol, mae'n bosibl hybu beicio ar y ffordd ar yr amod bod nifer y cerbydau'n llai na 2500 a bod cyflymder 85 canradd y traffig yn llai nag 20mya. Ym mis Ionawr 2023, lefel a chyflymder y traffig oedd 1193 o gerbydau yn teithio ar gyflymder 85 canradd o 30mya. Ar ôl i'r terfyn cyflymder 20mya gael ei gyflwyno ym mis Medi, byddwn yn monitro cyflymder y traffig unwaith eto er mwyn penderfynu pa mor addas yw'r ffordd ar gyfer beicio ar y ffordd.</p>


23	Nid yw cynllun presennol y ffordd yn anghymell cerddwyr fel fi.	Nid oes manau croesi priodol ar gynllun presennol y briffordd, sy'n ei gwneud hi'n anodd i rai defnyddwyr, yn enwedig pobl mewn cadeiriau olwyn, ddefnyddio dulliau teithio mwy cynaliadwy.
24	Bydd codi'r fân gylchfan yn achosi perygl i gerbydau mawr gan eu bod eisoes yn wynebu problemau wrth ei defnyddio ar hyn o bryd. Mae'n ddigon anodd dod allan o'r ddwy gyffordd y mae'r cynnig yn sôn am eu culhau yn barod oherwydd diffyg gwelededd a bydd eu culhau yn gwaethygu hyn. Y brif broblem ar hyd Tonna Uchaf yw'r ffaith bod cyflogion Ysbyty Tonna yn parcio ar y ffordd o gyffordd Heol-Y-Glo i lawr i gyffordd Pen Y Bryn; nid yw'n ymddangos y bydd unrhyw beth yn y cynigion hyn yn mynd i'r afael â'r problemau gwirioneddol hyn.	<p>Bydd y gylchfan ar gyffordd Tonna Uchaf/Heol Dulais Fach/Stryd y Parc yn cael ei chodi yn ei chyfanrwydd er mwyn ffurfio llwyfan uwch. Cynigir y bydd llinellau'r cyrbiau'n aros yn yr un lle, y bydd yr ynysoedd canol ar y ffyrdd dynesu'n cael eu tynnu oddi yno ac y bydd canol y gylchfan yn cael ei baentio ar y llwyfan uwch. Bydd y llwyfan uwch yn ymestyn ar draws lled y gylchfan gyda rampiau ar y ffyrdd dynesu er mwyn i gerbydau allu mynd drosodd yn ddiogel – fel y gwelir yn yr enghraifft isod</p>  <p>Drwy gadw llinell y cwrn yn yr un lle a chael gwared ar yr ynysoedd traffig, bydd ychydig yn haws i gerbydau (yn enwedig cerbydau mwy) fynd o amgylch y gylchfan nag yw hi ar hyn o bryd.</p> <p>Mae mynedfeydd Pen Y Bryn a Heol Caredig wedi cael eu dylunio yn unol â DE604 o Ganllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol. Mae'r llinell ildio ar gyfer y cyffyrdd wedi cael ei symud tuag at y brif ffordd, gan wella gwelededd.</p> <p>Mae mater parcio anghyfreithlon wedi cael ei godi â'n tîm gorfodi parcio. Mater i'r GIG yw parcio ar dir yr ysbyty ac nid yw o fewn cwmpas y prosiect hwn.</p> <p>Caiff y cynnig ei ariannu drwy Gronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru, a fwriedir ar gyfer gwella cyfleusterau teithio llesol ac ni ellir defnyddio'r cyllid i gynyddu darpariaeth ar gyfer parcio.</p>
25	Fel perchennog carafán sy'n byw yn y pentref ac yn parcio'r garafán ar y dreif, nid oes gen i syniad o gwbl sut y byddwn yn mynd ar yr A465 ac yn mynd heibio i gylchfan uwch? Byddai'n hurt disgwyl i ni	Bydd y gylchfan ar gyffordd Tonna Uchaf/Heol Dulais Fach/Stryd y Parc yn cael ei chodi yn ei chyfanrwydd er mwyn ffurfio llwyfan uwch. Cynigir y bydd llinellau'r cyrbiau'n aros yn yr un lle, y bydd yr ynysoedd canol ar y ffyrdd


	<p>yrru drwy Gastell-nedd! Nid wyf yn gallu gweld unrhyw fantais?</p>	<p>dynesu'n cael eu tynnu oddi yno ac y bydd canol y gylchfan yn cael ei baentio ar y llwyfan uwch. Bydd y llwyfan uwch yn ymestyn ar draws lled y gylchfan gyda rampiau ar y ffyrdd dynesu er mwyn i gerbydau allu mynd drosodd yn ddiogel – fel y gwelir yn yr enghraifft isod</p>  <p>Drwy gadw llinell y cwrw yn yr un lle a chael gwared ar yr ynysodd traffig, bydd ychydig yn haws i gerbydau (yn enwedig cerbydau mwy) fynd o amgylch y gylchfan nag yw hi ar hyn o bryd.</p> <p>Mantais creu'r llwyfan uwch ar y gylchfan yw galluogi pob defnyddiwr i groesi'r ffordd yn ddiogel.</p>
26	<p>Nid oes cynigion ar gyfer beicio o gwbl; yn yr astudiaeth ddichonoldeb roedd sgôr wael iawn ar gyfer beicio a nawr nid yw'n ymddangos bod unrhyw ystyriaeth i feicio o gwbl. Ydych chi wedi cynnal asesiad i weld beth fydd y sgôr beicio ar ôl i'r gwaith hwn gael ei gwblhau? Rwy'n gwerthfawrogi, os byddwch yn gostegu traffig ac yn ei gwneud yn ardal 20mya, efallai y bydd beicio ar y ffordd yn dderbyniol, ond gallech asesu diogelwch beicio o ganlyniad i'r gwaith hwn o hyd.</p>	<p>Mae angen i'r holl gynlluniau teithio llesol yng Nghymru gael eu dylunio yn unol â Chanllawiau Deddf Teithio Llesol Llywodraeth Cymru. Er mwyn dylunio ar gyfer darpariaeth cerdded a beicio, mae angen i lwybrau cyd-ddefnyddio fod yn 3.2m o led, mae angen i droedffyrdd fod yn 2.0m o led ac mae angen i lonydd beicio fod yn 1.5m o led, a hynny i'r naill gyfeiriad a'r llall. Mae'r lled sydd ar gael rhwng ffiniau eiddo yn annigonol i ddylunio ar gyfer darpariaeth beicio oddi ar y ffordd heb fod angen tir gan yr holl eiddo sy'n wynebu'r ffordd. O dan Ganllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol, mae'n bosibl hybu beicio ar y ffordd ar yr amod bod nifer y cerbydau'n llai na 2500 a bod cyflymder 85 canradd y traffig yn llai nag 20mya. Ym mis Ionawr 2023, lefel a chyflymder y traffig oedd 1193 o gerbydau yn teithio ar gyflymder 85 canradd o 30mya. Ar ôl i'r terfyn cyflymder 20mya gael ei gyflwyno ym mis Medi, byddwn yn monitro cyflymder y traffig unwaith eto er mwyn penderfynu pa mor addas yw'r ffordd ar gyfer beicio ar y ffordd.</p>
27	<p>Bydd culhau'r fynedfa i stryd Pen Y Bryn yn achosi mwy o broblemau i ddefnyddwyr y ffordd. Mae'r fynedfa yn dynn iawn yn barod os oes car yn dod allan o'r stryd ar yr un pryd, sy'n digwydd yn rheolaidd iawn. Hefyd, mae'r ceir sy'n parcio ar ffordd Tonna Uchaf ar y ddwy ochr ger mynedfa Pen Y</p>	<p>Mae mynedfa Pen Y Bryn wedi cael ei dylunio yn unol â DE604 o Ganllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol.</p> <p>Bydd y ffordd ei hun yn aros yr un fath; bydd y gyffordd yn culhau a hefyd yn symud ymhellach i mewn i'r ffordd. Gan y bydd y</p>

	<p>Bryn yn effeithio ar y gallu i ddelio â'r gyffordd hon yn ddiraffferth pan fydd traffig yn dod atoch. Efallai y byddai llinellau melyn dwbl ar un ochr yma yn gwella'r sefyllfa. Hefyd, mae mynedfa Heol Caredig ar gornel ddall ac rwy'n teimlo y byddai cael croesfan yma yn annogel i gerddwyr; byddai'n well rhoi'r groesfan ychydig ymhellach i mewn i'r stryd fel y bydd cerddwyr a defnyddwyr y ffordd yn gallu gweld yn glir.</p> <p>Bydd y gylchfan uwch yn peri problemau i gerbydau mwy gan fod y cylch troi yn fach dros ben ac mae angen y gylchfan wastad ar lorïau, bysiau ac ati i droi i mewn i Heol Dulais Fach.</p>	<p>gyffordd yn symud ymhellach i mewn i'r ffordd, bydd hyn yn gwella gwelededd i'r defnyddwyr wrth ddelio â'r gyffordd. Mae Rheolau'r Ffordd Fawr yn cynghori gyrwyr i beidio â stopio na pharcio gyferbyn â chyffordd nac o fewn 10 metr (32 troedfedd) iddi, ac eithrio mewn lle parcio wedi'i awdurdodi. Mae mater parcio anghyfreithlon wedi cael ei godi â'n tîm gorfodi parcio. Mae mynedfa Heol Caredig wedi cael ei dylunio yn unol â DE604 o Ganllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol. Mae'r llinell ildio ar gyfer y cyffyrdd wedi cael ei symud tuag at y brif ffordd, gan wella gwelededd.</p> <p>Bydd y gylchfan ar gyffordd Tonna Uchaf/Heol Dulais Fach/Stryd y Parc yn cael ei chodi yn ei chyfanrwydd er mwyn ffurfio llwyfan uwch. Cynigir y bydd llinellau'r cyrbiau'n aros yn yr un lle, y bydd yr ynysoedd canol ar y ffyrdd dynesu'n cael eu tynnu oddi yno ac y bydd canol y gylchfan yn cael ei baentio ar y llwyfan uwch. Bydd y llwyfan uwch yn ymestyn ar draws lled y gylchfan gyda rampiau ar y ffyrdd dynesu er mwyn i gerbydau allu mynd drosodd yn ddiogel – fel y gwelir yn yr enghraifft isod</p>  <p>Drwy gadw llinell y cwrn yn yr un lle a chael gwared ar yr ynysoedd traffig, bydd ychydig yn haws i gerbydau (yn enwedig cerbydau mwy) fynd o amgylch y gylchfan nag yw hi ar hyn o bryd.</p>
28	<p>Mae'r newidiadau arfaethedig i wella'r ddarpariaeth ar gyfer cerdded a beicio yn yr ardal yn iawn, ond byddai hyn ar draul defnyddwyr y ffordd a phreswylwyr mewn llawer o'r cynlluniau a awgrymir. Mae hyn yn cynnwys culhau mynedfa Pen Y Bryn, gan ei bod eisoes yn dynn iawn i ddau gerbyd sy'n mynd heibio i'w gilydd. A'r gylchfan uwch ar waelod Stryd y Parc, gan na fyddai bysiau, cerbydau danfon nwyddau, carafannau ac ati yn gallu delio â'r gylchfan uwch.</p>	<p>Mae'r ddwy gyffordd wedi cael eu dylunio yn unol â DE604 o Ganllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol.</p> <p>Bydd y gylchfan ar gyffordd Tonna Uchaf/Heol Dulais Fach/Stryd y Parc yn cael ei chodi yn ei chyfanrwydd er mwyn ffurfio llwyfan uwch. Cynigir y bydd llinellau'r cyrbiau'n aros yn yr un lle, y bydd yr ynysoedd canol ar y ffyrdd dynesu'n cael eu tynnu oddi yno ac y bydd canol y gylchfan yn cael ei baentio ar y llwyfan uwch. Bydd y llwyfan uwch yn ymestyn ar draws lled y gylchfan gyda rampiau ar y ffyrdd</p>

		<p>dynesu er mwyn i gerbydau allu mynd drosodd yn ddiogel – fel y gwelir yn yr enghraifft isod</p>  <p>Drwy gadw llinell y cwrn yn yr un lle a chael gwared ar yr ynysoedd traffig, bydd ychydig yn haws i gerbydau (yn enwedig cerbydau mwy) fynd o amgylch y gylchfan nag yw hi ar hyn o bryd.</p>
29	<p>Mae angen rampiau gostegu cyflymder wrth ddod i lawr rhiw Tonna Uchaf wrth nesáu at gyffordd Heol Caredig</p>	<p>Cynigir y caiff y terfyn cyflymder ar ffordd Tonna Uchaf ei ostwng o 30mya i 20mya o dan fenter 20mya Llywodraeth Cymru. Fel rhan o'r fenter 20mya, nid yw mesurau lleihau cyflymder fel twmpathau cyflymder yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru.</p>
30	<p>Ddim yn hapus â chulhau'r fynedfa i stryd Pen Y Bryn; mae'n ddigon gwael yn barod gyda'r holl faniau danfon nwyddau sy'n dod i mewn i'r stryd. Maent yn gwibio o gwmpas am fod ganddynt slot amser i ddanfon nwyddau; rwy'n credu bod damwain yn anochel a hefyd, wrth yrru allan o'r stryd, rhaid gwrthio allan i'r ffordd yn raddol am fod cerbydau sy'n dod i fyny'r rhiw yn cael eu cuddio gan y tro yn y ffordd.</p>	<p>Mae cyffordd Pen Y Bryn wedi cael ei dylunio yn unol â DE604 o Ganllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol.</p> <p>Bydd y ffordd ei hun yn aros yr un lled a bydd y gyffordd yn symud fymryn ymhellach i mewn i'r ffordd, a bydd hyn yn gwella gwelededd i'r defnyddwyr wrth ddelio â'r gyffordd.</p>
31	<p>Cynigion hurt. Codi cylchfan ar gyffordd Heol Dulais Fach yw'r peth mwyaf gwirion rwyf wedi'i glywed ers amser maith. Mae cerbydau nwyddau trwm a bysiau'n cael digon o anhawster yma'n barod. Byddai cael gwared ar y safle bysiau'n gwneud dim ond rhwystro llif y traffig a gwneud pethau'n fwy peryglus. Mae lleihau cyffordd Pen Y Bryn yn hollol wallgof ac mae gosod llwybr ar hap ar draws y glaswellt wrth yr ysbyty yn anghredadwy. Mae'n amlwg bod y gwastraff arian llwyr hwn wedi cael ei awgrymu gan rywun nad yw'n gwybod dim am y pentref hwn. Rwyf wedi byw yma ers 66 mlynedd ac, fel gweddill y trigolion, rwy'n gwrthwynebu'r cynlluniau hyn yn llwyr.</p>	<p>Bydd y gylchfan ar gyffordd Tonna Uchaf/Heol Dulais Fach/Stryd y Parc yn cael ei chodi yn ei chyfanrwydd er mwyn ffurfio llwyfan uwch. Cynigir y bydd llinellau'r cyrbiau'n aros yn yr un lle, y bydd yr ynysoedd canol ar y ffyrdd dynesu'n cael eu tynnu oddi yno ac y bydd canol y gylchfan yn cael ei baentio ar y llwyfan uwch. Bydd y llwyfan uwch yn ymestyn ar draws lled y gylchfan gyda rampiau ar y ffyrdd dynesu er mwyn i gerbydau allu mynd drosodd yn ddiogel – fel y gwelir yn yr enghraifft isod</p>  <p>Drwy gadw llinell y cwrn yn yr un lle a chael gwared ar yr ynysoedd traffig, bydd ychydig yn haws i gerbydau (yn enwedig cerbydau mwy)</p>

		<p>fynd o amgylch y gylchfan nag yw hi ar hyn o bryd.</p> <p>Bydd y safle bysiau wedi'i leoli y tu hwnt i lif y traffig, gan alluogi cerbydau i barhau i fynd heibio tra bydd modd i deithwyr fynd ar y bws a dod oddi arno.</p> <p>Mae mynedfa Pen Y Bryn wedi cael ei dylunio yn unol â DE604 o Ganllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol.</p> <p>Bydd y ffordd ei hun yn aros yr un lled a bydd y gyffordd yn symud fymryn ymhellach i mewn i'r ffordd, a bydd hyn yn gwella gwelededd i'r defnyddwyr wrth ddelio â'r gyffordd.</p> <p>Bydd y llwybr yn Heol-Y-Glo yn galluogi cerddwyr i groesi Heol Dulais Fach yn ddiogel.</p>
32	<p>Y penderfyniad gwaethaf erioed; pam newid rhywbeth sy'n gweithio'n iawn? Nid yw hyn wedi cael ei ystyried yn llawn ac, mewn cyfnod pan fo'r esgid yn gwasgu i bawb, mae'n gwbl gywilyddus bod y cyngor hyd yn oed yn gallu ystyried gwastraffu arian ar rywbeth mor hurt</p>	<p>Drwy adeiladu'r llwybr hwn, rydym yn darparu llwybr cerdded diogel sy'n addas i bob defnyddiwr. Drwy ddarparu hyn, rydym yn rhoi'r opsiwn i bobl ddefnyddio dulliau teithio cynaliadwy eraill yn lle eu ceir.</p> <p>Diben y gwelliant hwn yw hybu teithio llesol yn yr ardal hon, sef blaenoriaeth Llwybr Newydd.</p> <p>Hierarchaeth teithio cynaliadwy</p> <p>Byddwn yn parhau i wneud y defnydd gorau o'r seilwaith trafnidiaeth presennol trwy ei gynnal a'i reol'n dda. Byddwn hefyd yn ei addasu ar gyfer hinsawdd sy'n newid ac yn ei uwchraddio i gefnogi dulliau teithio. Lle mae angen seilwaith newydd, byddwn yn defnyddio'r hierarchaeth teithio cynaliadwy.</p> 
33	<p>Fel rwyf wedi'i ddweud yn barod, mae Tonna yn llawn tagfeydd; peidiwch â gwneud yr ardal yn waeth. Rwy'n cytuno â chodi croesfannau yr holl ffordd drwy bentref Tonna gan ei fod o bosibl yn un o'r unig bentrefi sydd heb groesfannau, yn enwedig ger Cae'r Parc ar gyfer trigolion</p>	<p>Diolch am eich sylwadau cadarnhaol.</p> <p>Caiff llwybrau a nodwyd ar Fap Rhwydwaith Teithio Llesol CNPT eu hystyried yn y dyfodol.</p>

	<p>Cysgodfa. Yn fy marn i, os oes angen i'r cyngor wario arian, yna dylech ei wario tuag at greu llwybr beicio ar hyd yr A465 gan y byddai hyn yn sicr yn gwneud yr ardal honno'n fwy diogel a byddai mwy o bobl yn beicio yn yr ardal.</p>	
34	<p>Cynllun gwych ar wahân i ostwng y terfyn cyflymder; os byddwch yn gwella'r palmentydd, pam lleihau'r cyflymder?</p>	<p>Diolch am eich sylwadau cadarnhaol.</p> <p>Cynllun gorfodol gan Lywodraeth Cymru yw'r mesurau lleihau cyflymder.</p>
35	<p>Yr unig bobl rydyn ni'n eu gweld yn beicio yw'r raswyr ar benwythnosau.</p>	<p>Diolch am eich sylw.</p>
36	<p>Bydd culhau'r gyffordd i mewn i stryd Pen Y Bryn yn ei gwneud yn beryglus dros ben. Mae'n anodd mynd i mewn neu ddod allan yn barod os oes cerbyd yn dod atoch. Bydd yn anoddach fyth i gerbydau mwy e.e. cerbydau danfon nwyddau a charafannau. Mae'r cerbyd gwasanaethau cymdeithasol yn codi pobl ar y stryd a bydd hyn yn anodd hefyd.</p> <p>Bydd yn amhosibl i gerbydau mwy ddelio â'r gylchfan uwch, gan gynnwys bysiau a cheir â charafannau, y mae llawer ohonynt oherwydd y cyfleuster storio yn Nhonna. Bydd codi'r gylchfan yn golygu y bydd cerbydau'n dewis neu'n gorfod mynd drwy bentref Tonna yn hytrach na throi ar Heol Dulais Fach, a fydd yn cynyddu nifer y cerbydau mawr sy'n mynd drwy'r pentref. Byddwn yn cwestiynu pwy a fyddai'n defnyddio'r llwybrau cerdded hyn; ychydig iawn o bobl y byddaf yn eu gweld yn cerdded i'r ysbyty ac, os byddant yn gwneud hynny, mae digon o balmentydd diogel ar ochr arall y ffordd sy'n golygu mai dim ond Heol Caredig y byddai angen ei chroesi Y brif broblem yn yr ardal hon yw llawer o geir staff yr ysbyty'n cael eu parcio ar y brif ffordd.</p>	<p>Mae mynedfa Pen Y Bryn wedi cael ei dylunio yn unol â DE604 o Ganllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol.</p> <p>Bydd y ffordd ei hun yn aros yr un lled a bydd y gyffordd yn symud fymryn ymhellach i mewn i'r ffordd, a bydd hyn yn gwella gwelededd i'r defnyddwyr wrth ddelio â'r gyffordd.</p> <p>Bydd y gylchfan ar gyffordd Tonna Uchaf/Heol Dulais Fach/Stryd y Parc yn cael ei chodi yn ei chyfanrwydd er mwyn ffurfio llwyfan uwch. Cynigir y bydd llinellau'r cyrbiau'n aros yn yr un lle, y bydd yr ynysoedd canol ar y ffordd dynesu'n cael eu tynnu oddi yno ac y bydd canol y gylchfan yn cael ei baentio ar y llwyfan uwch. Bydd y llwyfan uwch yn ymestyn ar draws lled y gylchfan gyda rampiau ar y ffordd dynesu er mwyn i gerbydau allu mynd drosodd yn ddiogel – fel y gwelir yn yr enghraifft isod</p>  <p>Drwy gadw llinell y cwrp yn yr un lle a chael gwared ar yr ynysoedd traffig, bydd ychydig yn haws i gerbydau (yn enwedig cerbydau mwy) fynd o amgylch y gylchfan nag yw hi ar hyn o bryd.</p> <p>Rhaid darparu croesfannau i gerddwyr er mwyn i bobl gael manau diogel i allu croesi cerbytyffyrdd. Byddai hyn yn rhoi cyfle i'r holl ddefnyddwyr posibl deithio ar droed.</p>

		<p>Mae mater parcio anghyfreithlon wedi cael ei godi â'n tîm gorfodi parcio. Mater i'r GIG yw parcio ar dir yr ysbyty ac nid yw o fewn cwmpas y prosiect hwn.</p> <p>Caiff y cynnig ei ariannu drwy Gronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru, a fwriedir ar gyfer gwella cyfleusterau teithio llesol ac ni ellir defnyddio'r cyllid i gynyddu darpariaeth ar gyfer parcio.</p>
37	<p>Rwy'n pryderu am y gylchfan uwch gan y bydd yn anodd iawn i lorïau, bysiau a charafannau/ôl-gerbydau ddelio â hi, ac rwyf hefyd yn pryderu am gulhau Pen Y Bryn a fydd yn gorfodi cerbydau i fynd i lwybr cerbydau sy'n dod y ffordd arall i droi i mewn i stryd Pen Y Bryn; rwy'n cynnig y dylid gosod llinellau melyn dwbl gyferbyn â stryd Pen Y Bryn a drych i gerbydau sy'n dod allan o stryd Pen Y Bryn er mwyn gweld traffig sy'n dod i fyny'r rhiw gan fod gweledd yn wael ar y ffordd.</p>	<p>Bydd y gylchfan ar gyffordd Tonna Uchaf/Heol Dulais Fach/Stryd y Parc yn cael ei chodi yn ei chyfanrwydd er mwyn ffurfio llwyfan uwch. Cynigir y bydd llinellau'r cyrbiau'n aros yn yr un lle, y bydd yr ynysoedd canol ar y ffyrdd dynesu'n cael eu tynnu oddi yno ac y bydd canol y gylchfan yn cael ei baentio ar y llwyfan uwch. Bydd y llwyfan uwch yn ymestyn ar draws lled y gylchfan gyda rampiau ar y ffyrdd dynesu er mwyn i gerbydau allu mynd drosodd yn ddiogel – fel y gwelir yn yr enghraifft isod</p>  <p>Drwy gadw llinell y cwrw yn yr un lle a chael gwared ar yr ynysoedd traffig, bydd ychydig yn haws i gerbydau (yn enwedig cerbydau mwy) fynd o amgylch y gylchfan nag yw hi ar hyn o bryd.</p> <p>Mae mynedfa Pen Y Bryn wedi cael ei dylunio yn unol â DE604 o Ganllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol.</p> <p>Bydd y ffordd ei hun yn aros yr un lled a bydd y gyffordd yn symud fymryn ymhellach i mewn i'r ffordd, a bydd hyn yn gwella gweledd i'r defnyddwyr wrth ddelio â'r gyffordd.</p> <p>Mae parcio gyferbyn â chyffordd yn mynd yn groes i Reolau'r Ffordd Fawr. Mae mater parcio anghyfreithlon wedi cael ei godi â'n tîm gorfodi parcio.</p>

38	Peidiwch â gwneud dim byd; nid oes angen gwella'r sefyllfa; mae'r ynysoedd yn ei gwneud hi'n hawdd croesi	Mae'r llwybr hwn wedi cael ei ddsbarthu fel llwybr sydd eisoes yn bodoli oherwydd y cysylltiadau pwysig â'r ysbyty. Mae'r llwybr wedi methu yn yr archwiliad llwybrau, gyda methiant difrifol oherwydd prinder cyfleusterau croesi diogel. O ganlyniad i hynny, mae blaenoriaeth wedi cael ei rhoi i gwblhau'r llwybr hwn.
39	Rwy'n credu y dylai'r ffocws fod ar ychwanegu llwybrau beicio diogel neu balmant i draffig ar droed lle nad ydynt yn bodoli, yn hytrach na gwella palmentydd ar gyfer traffig ar droed yn unig! Mae'n siom i mi fod cymunedau'r cymoedd, sydd â thrafnidiaeth gyhoeddus gyfyngedig ac nad oes ganddynt lwybrau teithio llesol, yn gorfod aros wrth i fân newidiadau i balmartydd sydd eisoes yn bodoli ar gyfer traffig ar droed mewn ardaloedd sy'n cael eu gwasanaethu'n dda gan drafnidiaeth gyhoeddus gael eu blaenoriaethu!	Mae'r llwybr hwn wedi cael ei ddsbarthu fel llwybr sydd eisoes yn bodoli oherwydd y cysylltiadau pwysig â'r ysbyty. Mae'r llwybr wedi methu yn yr archwiliad llwybrau, gyda methiant difrifol oherwydd prinder cyfleusterau croesi diogel. O ganlyniad i hynny, mae blaenoriaeth wedi cael ei rhoi i gwblhau'r llwybr hwn. Caiff llwybrau a nodwyd ar Fap Rhwydwaith Teithio Llesol CNPT eu hystyried yn y dyfodol.
40	Mae eisoes yn anodd troi i mewn ac allan o stryd Pen Y Bryn ar hyn o bryd. Mae'n anodd gweld wrth ddod allan o'r gyffordd oherwydd ceir wedi'u parcio a'r rhiw...ac wrth ddychwelyd i mewn i stryd Pen Y Bryn mae dau fan dall sydd hefyd yn ei gwneud hi'n anodd gweld unrhyw draffig sy'n dod atoch...ni fyddai culhau'r ffordd yn ddiogel yn fy marn i.	Mae mynedfa Pen Y Bryn wedi cael ei dylunio yn unol â DE604 o Ganllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol. Bydd y ffordd ei hun yn aros yr un lled a bydd y gyffordd yn symud fymryn ymhellach i mewn i'r ffordd, a bydd hyn yn gwella gweledd i'r defnyddwyr wrth ddelio â'r gyffordd.

OS NAD YW'N BELL, GADEWCH Y CAR



GWYRDDACH



HAPUSACH



IACHACH